Llywodraeth Cymru

Ymgynghori – crynodeb o'r ymatebion

# Fframwaith Pontio Teg

Mehefin 2024

Teitl:
Fframwaith Pontio Teg –
crynodeb o'r ymatebion ymgynghori

Awdur(on): Alma Economics

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:
Is-adran: Newid Hinsawdd a Thlodi Tanwydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ClimateChange@llyw.cymru

## Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol .......... 5
   1.1 Cefndir .......... 5
   1.2 Canfyddiadau'r dadansoddiad o'r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg .......... 5
   1.3 Canfyddiadau'r dadansoddiad o Sgyrsiau am yr Hinsawdd .......... 6
   1.4 Themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws y ddau fformat .......... 7
2. Cyflwyniad/Cefndir .......... 8
   2.1 Cefndir i'r prosiect .......... 8
   2.2 Trosolwg ymatebwyr .......... 11
      Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg .......... 11
      Sgyrsiau am yr Hinsawdd .......... 12
3. Methodoleg .......... 14
   3.1 Amlinelliad .......... 14
   3.2 Prosesu data .......... 14
   3.3 Ymagwedd at ddadansoddiad thematig ansoddol .......... 14
      Ymatebion anstrwythuredig .......... 16
   3.4 Cyfyngiadau .......... 16
4. Canfyddiadau'r dadansoddiad o'r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg .......... 17
   4.1 Amlinelliad .......... 17
   4.2 Themâu trosfwaol .......... 17
   4.3 Adran Fframwaith: Cyflwyniad .......... 20
      Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ynglŷn â'r Weledigaeth arfaethedig ar gyfer Cymru Decach a Gwyrddach erbyn 2050? .......... 21
      Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ynglŷn â'n hymagwedd arfaethedig at bontio teg yng Nghymru? .......... 24
      Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ynglŷn â strwythur cyffredinol y fframwaith arfaethedig? .......... 27
   4.4 Adran Fframwaith: Rhan 1 – Integreiddio pontio teg yn ein proses gwneud penderfyniadau .......... 30
      Cwestiwn 4: Beth yw eich barn ynglŷn â'r egwyddorion canllaw? .......... 30
      Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ynglŷn â'r ymagwedd arfaethedig at gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio? .......... 33
   4.5 Adran Fframwaith: Rhan 2 – Adeiladu ein Sylfaen Dystiolaeth .......... 35
      Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ynglŷn â'r lensys arfaethedig i archwilio'r effeithiau a'r cyfleoedd economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a fydd yn deillio o'r pontio? 35

4.6 Adran Fframwaith Rhan 3 – Gweithio gyda Rhanddeiliaid a Chydgysylltu ein Hymateb ar y Cyd ....... 37
Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ynglŷn â’r arweiniad, y cydweithio, a’r rolau a’r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer cyflenwi Pontio Teg? ....... 37
Cwestiwn 8: Yn eich tyb chi, sut gellir mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i gynnwys pobl a chymunedau Cymru yn y gwaith o gynllunio ar gyfer pontio teg? ....... 40
4.7 Adran Fframwaith: Rhan 4 – Pecyn Cymorth ....... 42
Cwestiwn 9: Beth yw eich barn ynglŷn â’r pecyn cymorth arfaethedig? ....... 42
4.8 Adran Fframwaith: Cwestiwn Iaith Gymraeg a sylwadau agored ....... 44
Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith Pontio Teg ar y Gymraeg? ....... 45
Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y Fframwaith Pontio Teg arfaethedig er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu leihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg? ....... 47
Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma. ....... 48
4.9 Crynodeb o ymatebion anstrwythuredig ....... 50
5. Canfyddiadau o’r dadansoddiad o’r Sgyrsiau am yr Hinsawdd ....... 53
5.1 Cefndir ac amlinelliad ....... 53
5.2 Ymatebion strwythuredig ....... 53
Cwestiwn 1: Sut rydym yn lleihau allyriadau, ei gwneud yn deg i chi a sicrhau lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt? ....... 53
Cwestiwn 2: Sut ydym ni’n eich cynnwys chi mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn deg? Er enghraifft, a ydych chi’n meddwl bod digon o gyfleoedd i chi gymryd rhan? ....... 57
Pwy ydych chi’n meddwl ddylai fod yn rhan o’r broses o wneud penderfyniadau am yr hyn sydd angen i ni ei wneud i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd? ....... 57
Sut ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys gwahanol grwpiau? / Sut ydych chi'n meddwl y gallwn gynnwys pobl nad ydynt efallai wedi bod yn rhan o benderfyniadau neu drafodaethau yn y gorffennol, sy'n effeithio ar eu bywydau? ....... 58
5.3 Crynodeb o ymatebion anstrwythuredig ....... 60
6. Cymharu themâu ar draws yr ymgynghoriad ac adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd 62
7. Casgliad ....... 64
8. Llyfryddiaeth ....... 65

## Rhestr o ffigurau a thablau

Tabl 2.1 Ffynhonnell yr ymatebion a dderbyniwyd i'r prif ymgynghoriad .............................. 11
Ffigur 2.1 Cyfran o ymatebwyr sy’n ymwneud yn benodol ag unrhyw un o’r sectorau allyriadau .................................................................. 11
Ffigur 2.2 Cyfran o ymatebwyr unigol fesul ystod oedran .................................................... 12
Ffigur 2.3 Cyfran o ddigwyddiadau yn ôl mathau o drefnwyr ............................................... 13
Ffigur 2.4 Cyfran o ddigwyddiadau yn ôl nifer y cyfranogwyr............................................... 13

## Rhestr Termau

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| CJC | Cyd-bwyllgorau Corfforaethol |
| EIA | Asesiadau Effaith Cydraddoldeb |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| BGC | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| S4C | Sianel Pedwar Cymru |
| SDG | Nodau Datblygu Cynaliadwy |
| SFS | Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| Urdd | Urdd Gobaith Cymru |
| DLICD | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol |

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Nod Fframwaith Pontio Teg Llywodraeth Cymru yw rhoi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd tra’n ystyried tegwch cymdeithasol ar yr un pryd. Roedd ymgynghoriad ar y fframwaith arfaethedig, a gynhaliwyd rhwng 4 Rhagfyr 2023 ac 11 Mawrth 2024, yn cynnwys 12 cwestiwn fformat agored yn cwmpasu wyth maes allweddol: integreiddio, gweledigaeth, egwyddorion arweiniol, sylfaen dystiolaeth, ysgogi rhanddeiliaid ac ymgysylltu, pecyn cymorth, cynllunio ac effeithiau ar y Gymraeg. Cafwyd 106 o ymatebion i’r ymgynghoriad hwn, gyda 59 y cant wedi’u cyflwyno ar-lein a 41 y cant drwy e-bost. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys 49 o unigolion a 57 o sefydliadau, gydag 82 y cant o ymatebwyr unigol dros 50 oed ac 17 y cant yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd', gan ddenu bron i 2,000 o fynychwyr. Roedd y digwyddiadau hyn o feintiau amrywiol, yn cael eu cynnal yn bennaf gan gymunedau ac yn cynnig cipolwg pellach ar sut i gyflawni trawsnewidiad teg i sero net yng Nghymru. Cyflwynodd trefnwyr y digwyddiadau 37 o adroddiadau yn crynhoi'r trafodaethau yn ystod y Sgyrsiau am yr Hinsawdd.

## 1.2 Canfyddiadau’r dadansoddiad o’r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg

1.2.1 Datgelodd yr ymgynghoriad dair thema gyffredinol: Cynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, anghytuno cyffredinol â'r newid i sero net, a sicrhau tegwch yn y cyfnod pontio teg. Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi’r Weledigaeth ar gyfer Cymru Decach, Wyrddach erbyn 2050 ond awgrymwyd mwy o ffocws ar feysydd penodol, yn enwedig cadwraeth natur. Roedd hwn yn faes a godwyd gan ymatebwyr unigol a sefydliadol, gyda mwyafrif y sefydliadau a gododd y maes ffocws hwn yn cynrychioli materion amgylcheddol. O ran y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer pontio teg, roedd yr ymatebwyr yn croesawu rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, gan ystyried ei bod yn addas oherwydd yr egwyddorion cyfannol a chynhwysol y mae’n eu hymgorffori. Derbyniodd y strwythur trosfwaol adborth cadarnhaol, ond beirniadodd rhai ei ddiffyg penodoldeb, a galw am arweiniad cliriach.

1.2.2 Roedd yr egwyddorion arweiniol ar gyfer pontio teg yn wynebu beirniadaeth am fod yn rhy amwys, gyda galwadau am enghreifftiau a chanllawiau mwy pendant. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol

wrth gynllunio pontio, gan awgrymu astudiaethau achos ac enghreifftiau i arwain y trafodaethau hyn.

1.2.3 Yn gyffredinol, croesawyd y lensys arfaethedig i archwilio effeithiau economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pontio teg, yn enwedig y lens ofodol. Fodd bynnag, galwodd ymatebwyr am ffocws cryfach ar feysydd penodol fel cadwraeth natur a'i heffaith ar ecosystemau a bioamrywiaeth, thema a godwyd gan ymatebwyr unigol a sefydliadol, gyda'r mwyafrif o sefydliadau yn nodi cadwraeth natur fel maes ffocws sy'n cynrychioli materion amgylcheddol.

1.2.4 Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i gynnwys yr holl randdeiliaid wrth gynllunio a chyflenwi pontio teg. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gwreiddio'r broses o fewn partneriaethau presennol, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a defnyddio sefydliadau presennol i hybu ymglymiad cymunedol a chodi ymwybyddiaeth.

1.2.5 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r pecyn cymorth arfaethedig ond yn argymell ei symleiddio a'i wneud yn fwy hygyrch, gyda fformatau gwahanol fel fersiynau all-lein, neu fersiynau hawdd eu darllen. Roeddent hefyd yn awgrymu cynnwys astudiaethau achos i ddangos arferion gorau.

1.2.6 Roedd gan ymatebwyr farn gymysg ar effaith y Fframwaith Pontio Teg ar y Gymraeg, gyda rhai'n awgrymu y gallai gefnogi'r iaith drwy ddarparu cyfleoedd gwaith mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Cynigiodd ymatebwyr eraill bolisïau ehangach i gryfhau'r Gymraeg drwy ddulliau economaidd a deddfwriaethol, gan bwysleisio pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg ac amddiffynfeydd cymunedol.

## 1.3 Canfyddiadau'r dadansoddiad o Sgyrsiau am yr Hinsawdd

1.3.1 Roedd y digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn canolbwyntio ar y thema gyffredinol, 'Sut mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mewn ffordd deg?' Ar gyfer Cwestiwn 1, gofynnwyd i'r trefnwyr ystyried y canlynol gyda'r rhai a oedd yn bresennol: sut y gellir lleihau allyriadau tra'n ystyried tegwch ar yr un pryd, ynghyd â sicrhau lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt.

1.3.2 Rhaid nodi nad oedd llawer o adroddiadau'n archwilio'n llawn yr agwedd 'tegwch' o gwestiwn trosfwaol y digwyddiad, ac yn hytrach manteisiwyd ar y cyfle i drafod ffyrdd cyffredinol o fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan gynnwys lleihau allyriadau, lleoedd gwell i fyw ynddynt. a gwaith a chyfranogiad mewn penderfyniadau am newid hinsawdd.

1.3.3 Y pedair thema a ddaeth i'r brig oedd: (i) atebion ar lefel gymunedol, gydag adroddiadau'n awgrymu, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n decach, y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi cymunedau lleol i gynllunio a gweithredu eu dulliau eu hunain o leihau allyriadau; (ii) cymorth a chymhellion ariannol, gan sicrhau cyfle cyfartal i bob unigolyn gael mynediad at arferion cynaliadwy a'u mabwysiadu, (iii) gwell buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth; a (iv) buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant, gan danlinellu pwysigrwydd ymgorffori addysg werdd yng nghwricwlwm ysgolion a darparu hyfforddiant swyddi a sgiliau i gynorthwyo gweithwyr sy'n trosglwyddo i ddiwydiannau gwyrddach.

1.3.4 Roedd y drafodaeth ar Gwestiwn 2 yn canolbwyntio ar gynnwys pobl yn deg mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd a nodi penderfynwyr allweddol. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ynghylch pwy ddylai gymryd rhan oedd (i) grwpiau agored i niwed a fyddai'n cael eu heffeithio'n andwyol gan bontio a (ii) yr holl randdeiliaid perthnasol o dan gynllun ymagwedd gyfannol. Yr argymhellion mwyaf cyffredin ar sut i gynnwys gwahanol grwpiau yn y broses o wneud penderfyniadau oedd (i) ymglymiad y gymuned a chydweithio, gan gynnwys awgrymiadau megis cyfarfodydd rheolaidd, sesiynau adborth, a digwyddiadau cymunedol i ymgysylltu â'r cyhoedd, (ii) ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a chyfathrebu strategaethau sy'n canolbwyntio ar wella hygyrchedd gwybodaeth newid hinsawdd ac adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd sy'n pwysleisio'r angen am gyfathrebu clir mewn fformatau ac ieithoedd lluosog i gyrraedd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol a (iii) gwella addysg newid yn yr hinsawdd i adeiladu sgiliau cymunedol ac annog cyfranogiad ehangach, yn enwedig ymhlith grwpiau lleiafrifol.

## 1.4 Themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws y ddau fformat

1.4.1 Roedd digwyddiadau Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg a Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn archwilio gwahanol agweddau ar bontio teg i fynd i'r afael â newid hinsawdd yng Nghymru. Fodd bynnag, trafodwyd rhai themâu yn y ddau fformat, gan gynnwys (i) yr effaith ar fusnes a chyflogaeth, gyda galwadau am addysg werdd a datblygu sgiliau i baratoi'r gweithlu ar gyfer y cyfnod pontio teg, (ii) y pwyslais ar fentrau cymunedol, megis fel prosiectau ynni sy'n eiddo i'r gymuned, a (iii) pwysigrwydd ymglymu rhanddeiliaid yn gynhwysol, gyda chyfranwyr yn pwysleisio ffocws ar grwpiau bregus fel lleiafrifoedd ethnig, trigolion gwledig, unigolion incwm is, a'r henoed.

# 2. Cyflwyniad/Cefndir

## 2.1 Cefndir i'r prosiect

2.1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gyfreithiol i dargedau amgylcheddol drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[1]. Nod y ddeddfwriaeth hon yw mynd i'r afael â'r her o sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol tra'n mynd i'r afael ar yr un pryd â'r galw am greu swyddi, tai, a datblygu seilwaith. I ddechrau, roedd y Ddeddf yn rhoi mandad i Weinidogion Cymru sicrhau gostyngiad o 80 y cant o leiaf mewn allyriadau net yng Nghymru erbyn 2050 o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Yn 2021, fodd bynnag, wedi'i hysgogi gan ddatganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng hinsawdd yn 2019 ac wedi'i harwain gan argymhellion gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd annibynnol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 gyda bwriad clir i gyrraedd y targed hwn hyd yn oed yn gynt[2].

2.1.2 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD)[3], mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i saith nod llesiant, gan gynnwys gwella ffyniant, cydnerthedd, cydraddoldeb a chyfrifoldeb byd-eang yng Nghymru. Yng nghyd-destun yr amgylchedd, mae'r DLlCD yn gosod cyfres o ddangosyddion amgylcheddol[4], gan gynnwys ôl troed byd-eang Cymru, cyfran yr anheddau sy'n bodloni safonau perfformiad ynni, ac allyriadau nwyon tŷ gwydr y wlad. Mae'r dangosyddion hyn yn allweddol i benderfynu a yw Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni ei dyheadau amgylcheddol o dan nodau llesiant y DLlCD.

2.1.3 Er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau newid hinsawdd, mae'n ofynnol i Weinidogion osod rheoliadau i greu cyllidebau carbon pum mlynedd a chynhyrchu cynllun i gwrdd â phob cyllideb yn ei thro. Mae ail gyllideb garbon Cymru (2021–2025)[5] yn cynnwys 123 o bolisïau ac yn dechrau adeiladu'r sylfeini ar gyfer y drydedd gyllideb garbon a'i tharged ar gyfer 2030, yn ogystal â'r targed tymor hwy o gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae'r gyllideb garbon bresennol yn canolbwyntio ar 'Bontio Teg' sy'n golygu

---

[1] 'Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016', ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

[2] Llywodraeth Cymru, 'Cymru wedi ymrwymo i sero-net erbyn 2050, ond yr uchelgais yw taro'r nod yn gynt', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymru-wedi-ymrwymo-i-sero-net-erbyn-2050-ond-yr-uchelgais-yw-taror-nod-yn-gynt (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

[3] 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

[4] Llywodraeth Cymru, 'Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

[5] Llywodraeth Cymru, 'Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25)', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25 (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

pontio tuag at economi sero net heb waethygu’r gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol presennol neu greu rhai newydd ar draws diwydiannau, sectorau gweithlu, grwpiau economaidd-gymdeithasol, cymunedau, neu unigolion. Prif nod y Fframwaith Pontio Teg yw cyrraedd allyriadau sero net tra’n sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl yn y broses, gyda chostau a buddion wedi’u dosbarthu’n deg.

2.1.4 Gan gydnabod bod rhaid cynllunio a chydlynu cyfnod pontio teg yn effeithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig Fframwaith Pontio Teg i Gymru. Mae’r Fframwaith arfaethedig, a gafodd ei lywio gan Alwad am Dystiolaeth Llywodraeth Cymru a sgyrsiau gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol[6], yn nodi’r dull strategol o fynd i’r afael â risgiau hinsawdd a chyflawni pontio i sero net sy’n mynd i’r afael ag anghydraddoldebau presennol ac sy’n atal rhai newydd rhag dod i’r amlwg. Bydd y Fframwaith Pontio Teg yn sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y modd y bydd Cymru yn gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i gyflawni allyriadau sero net. Ei nod yw gwella cydlyniad yn y ffordd y mae Cymru’n mynd i’r afael â’r newidiadau hynny, gan gynnig gwybodaeth ac arweiniad gwerthfawr, gan gynnwys pecyn cymorth.

2.1.5 Yn y cyd-destun hwn, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a oedd yn holi barn y cyhoedd ar y Fframwaith Pontio Teg arfaethedig yn ogystal â rhaglen o ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd. Cynlluniwyd yr ymgynghoriad a'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd i ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd, gyda'r nod o ddeall amrediad o wahanol safbwyntiau, a byddant yn llywio datblygiad y Fframwaith Pontio Teg terfynol y bwriedir ei gyhoeddi yn 2024. Bydd y Fframwaith terfynol hefyd yn llywio datblygiad Cynllun Sero Net Cymru 2026, a fydd yn nodi sut y bydd y drydedd Gyllideb Garbon (2026-2030) yn cael ei bodloni.

2.1.6 Bu’r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg[7] ar agor am 14 wythnos, o 4 Rhagfyr 2023 - 11 Mawrth 2024, ac roedd yn cynnwys 12 cwestiwn fformat agored ar yr wyth maes a ganlyn: Integreiddio, gweledigaeth, egwyddorion arweiniol, sylfaen dystiolaeth, ysgogi rhanddeiliaid ac ymgysylltu, pecyn cymorth, cynllunio ac effeithiau ar y Gymraeg.

2.1.7 Cynhaliwyd cyfres o Sgyrsiau am yr Hinsawdd[8] wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru cyn, yn ystod, ac ar ôl Wythnos Hinsawdd Cymru 2023, rhwng 4 Rhagfyr 2023 a 31 Ionawr 2024. Roedd y Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn canolbwyntio ar y thema

[6] Llywodraeth Cymru, ‘Synthesis Galwad am Dystiolaeth Pontio Teg’, ar gael yn: ttps://www.llyw.cymru/pontio-teg-tuag-sero-net-cymru (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

[7] Llywodraeth Cymru, ‘Fframwaith Pontio Teg, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/crynodeb-or-fframwaith-pontio (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

[8] Llywodraeth Cymru, ‘Sgyrsiau am yr Hinsawdd’, ar gael yn: https://www.climateweek.gov.wales/CY/pages/Climate_conversations (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

gyffredinol 'Sut mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mewn ffordd deg?' a'i phwrpas oedd dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r hyn y mae tegwch sy'n ymwneud â lliniaru newid hinsawdd yn ei olygu i gymunedau ac aelwydydd ledled Cymru, a sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael rhoi eu barn. I gefnogi'r gwahanol sefydliadau a gynhaliodd y digwyddiadau hyn, darparodd Llywodraeth Cymru Becyn Trefnwyr[9] a oedd yn amlinellu dau gwestiwn allweddol ac awgrymiadau cysylltiedig ar gyfer trafodaeth. Cafodd y trefnwyr y dasg o lunio adroddiad yn amlinellu'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r trafodaethau. Y dyddiad cau i drefnwyr gyflwyno'r adroddiadau oedd 1 Mawrth 2024.

2.1.8 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r dadansoddiad thematig o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg yn ogystal â'r adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd. Mae adran 2.2 yn rhoi trosolwg o bwy ymatebodd i'r ymgynghoriad ac yn cyflwyno nodweddion y Sgyrsiau am yr Hinsawdd. Mae Pennod 3 yn trafod y dull methodolegol a ddefnyddiwyd ar gyfer prosesu data a dadansoddi thematig yn ogystal ag unrhyw gyfyngiadau ar y dadansoddiad. Cyflwynir canfyddiadau'r dadansoddiad thematig ym Mhennod 4 o'r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg a Phennod 5 ar gyfer y Sgyrsiau am yr Hinsawdd. Mae Pennod 6 yn trafod yr hyn sy'n gyffredin ac yn wahanol ymhlith y themâu a gafodd sylw yn yr ymgynghoriad a'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd, ac mae Pennod 7 yn cloi. Yn olaf, mae Pennod 8 yn rhoi trosolwg o'r holl gyfeiriadau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr adroddiad, a darperir atodiad ar ddiwedd yr adroddiad sy'n rhestru'r holl gwestiynau ymgynghori a'r cwestiynau allweddol yr awgrymwyd eu trafod yn y Sgyrsiau am yr Hinsawdd.

[9] Llywodraeth Cymru, 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd – Cwestiynau Allweddol', ar gael yn: https://cdn-eu.eventscase.com/www.climateweek.gov.wales/uploads/users/933324/uploads/00aa27425332d3a4f76bd4e336e1f27c103ced8485194e86978bfd3a2acad9574ab9675a09cc277c7c3a16d42db3eb986b2e.6558bed5f253a.pdf (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

## 2.2 Trosolwg ymatebwyr

### Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg


2.2.1 Cafwyd 106 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Fel y dangosir yn nhabl 2.1, cyflwynwyd mwyafrif yr ymatebion (59 y cant, 63 o ymatebion) drwy'r ffurflen ar-lein, a derbyniwyd 43 o ymatebion (41 y cant) yn uniongyrchol drwy e-bost. Ymhlith yr ymatebion a ddaeth i mewn trwy e-bost, ni ddilynodd naw ohonynt strwythur y ddogfen ymgynghori. Yn gyffredinol, cymerodd 49 o ymatebwyr unigol (46 y cant) a 57 o ymatebwyr sefydliadol (54 y cant) ran yn yr ymgynghoriad.

**Tabl 2.1 Ffynhonnell yr atebion a dderbyniwyd i'r prif ymgynghoriad**

| Math o ymatebydd | Ffurflen ar-lein | E-bost |
|---|---|---|
| Unigolyn | 46 | **3** |
| Sefydliad | 17 | **40** |
| **Cyfanswm ymatebwyr** | **63 (59%)** | **43 (41%)** |


2.2.2 Mae dadansoddiad manylach yn bosibl o'r ymatebwyr a ddefnyddiodd y ffurflen ar-lein i gyflwyno eu hadborth i'r ymgynghoriad. O'r 63 o ymatebwyr a ddefnyddiodd yr offeryn ar-lein, dywedodd 46 (73 y cant) eu bod nhw neu eu sefydliad wedi'u lleoli yng Nghymru, tra bod wyth o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, ac ni atebodd naw o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ymhlith y 46 o ymatebwyr unigol a gyflwynodd eu hymateb drwy'r ffurflen ar-lein, nododd 46 (17 y cant) eu bod yn siarad Cymraeg.

**Ffigur 2.1 Cyfran o ymatebwyr sy'n ymwneud yn benodol ag unrhyw un o'r sectorau allyriadau**



2.2.3 Fel y dangosir yn ffigur 2.1, pan ofynnwyd iddynt a oes ganddyn nhw neu eu sefydliad gysylltiad penodol ag unrhyw un o’r sectorau allyriadau, atebodd 46 y cant o’r 63 o ymatebwyr a gyflwynodd drwy ffurflen ar-lein ‘Dim un o’r uchod/ddim yn berthnasol '. Y sectorau a oedd â’r gynrychiolaeth uchaf ymhlith ymatebwyr ffurflenni ar-lein oedd Amaethyddiaeth (17 y cant), Cynhyrchu Ynni a Gwres (14 y cant), Adeiladau Preswyl (13 y cant) a Choedwigaeth a Defnydd Tir (13 y cant)[10].

**Ffigur 2.2 Cyfran o ymatebwyr unigol fesul ystod oedran**




2.2.4 Fel y dangosir yn ffigur 2.2, nid oedd yr un o’r 46 o ymatebwyr unigol a gyflwynodd eu hymatebion drwy’r ffurflen ar-lein o dan 35 oed. Roedd y mwyafrif helaeth (82 y cant) dros 50, gyda 41 y cant yn y grŵp oedran 50-64 a 41 y cant arall yn hŷn na 65.


## Sgyrsiau am yr Hinsawdd

2.2.5 Cyflwynwyd cyfanswm o 37 o adroddiadau gan drefnwyr digwyddiadau. Fel y dangosir yn ffigur 2.3, cynhaliwyd y mwyafrif (62 y cant) o'r digwyddiadau gan gymunedau lleol.[11]. Roedd awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol (Ysgolion, Colegau, Prifysgolion) yr un wedi trefnu 14 y cant o'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd, a chynhaliwyd 11 y cant gan elusennau.

[10] Sylwch y gofynnwyd i ymatebwyr ddewis pob opsiwn sy'n berthnasol. Mae'r niferoedd canrannol yn disgrifio cyfran y 63 o ymatebwyr y ffurflen ar-lein a ddewisodd yr opsiwn penodol hwnnw.


[11] Mae hyn yn cynnwys sefydliadau o fewn y trydydd sector (e.e., grwpiau gwirfoddol, cwmnïau cydweithredol a mathau eraill o rwydweithiau sy’n cynrychioli grwpiau ymylol).

**Ffigur 2.3 Cyfran o ddigwyddiadau yn ôl mathau o drefnwyr**




2.2.6 Yn gyffredinol, mynychodd bron i 2,000 o bobl ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd. Croesawodd y digwyddiad mwyaf 330 o gyfranogwyr a mynychwyd y digwyddiad lleiaf gan 4 o bobl, gyda 56 o gyfranogwyr yn bresennol ar gyfartaledd. Mae ffigur 2.4 yn dangos y gyfran o ddigwyddiadau yn ôl nifer y cyfranogwyr.

**Ffigur 2.4 Cyfran o ddigwyddiadau yn ôl nifer y cyfranogwyr**



# 3. Methodoleg

## 3.1 Amlinelliad

3.1.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer prosesu a dadansoddi'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg a'r adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd. Mae'n cynnwys disgrifiad o'r dull o gyfuno'r data o wahanol ffynonellau a sut y cafodd y data ei sgrinio ar gyfer dyblygu ac iaith sarhaus. Yn ogystal, mae'r adran hon yn trafod yr ymagwedd at y dadansoddiad thematig ansoddol, gan gynnwys datblygu fframwaith thematig a sut yr ymdriniwyd ag ymatebion anstrwythuredig, yn ogystal â chyfyngiadau'r dadansoddiad.

## 3.2 Prosesu data

3.2.1 Ar ddechrau'r dadansoddiad, unwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad o wahanol ffynonellau allbwn (ffurflen ar-lein ac e-bost) i un set ddata gan ddefnyddio Python, iaith raglennu a ddefnyddir yn aml ar gyfer tasgau megis dadansoddi data. Yn ystod yr adolygiad â llaw o'r ymatebion, sgriniodd y tîm ymchwil y rheini a oedd yn amlwg wedi'u bwriadu i fod yn dramgwyddus, sarhaus, neu'n amlwg yn ddi-chwaeth; ni chafodd unrhyw ymatebion eu dileu o ganlyniad i'r sgrinio hwn. Trwy ddefnyddio Python, cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu sgrinio i nodi ymatebion neu ymgyrchoedd dyblygol a drefnwyd gan grwpiau allanol neu ymatebion a gydlynwyd yn unigol i'r ymgynghoriad. Fel rhan o'r broses hon, ni nodwyd unrhyw ddyblygiadau nac ymatebion unfath gan ymgyrchoedd trefniedig.

## 3.3 Ymagwedd at ddadansoddiad thematig ansoddol

3.3.1 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau fformat agored gyda meysydd testun rhydd ar yr wyth maes a ganlyn: Integreiddio, gweledigaeth, egwyddorion arweiniol, sylfaen dystiolaeth, ysgogi rhanddeiliaid ac ymgysylltu, pecyn cymorth, cynllunio ac effeithiau ar y Gymraeg. Ceir trosolwg manwl o gwestiynau'r ymgynghoriad yn yr atodiad.

3.3.2 Yn ogystal â'r ymgynghoriad, roedd y dadansoddiad thematig yn cynnwys prosesu adroddiadau o 37 o ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd. Roedd Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn canolbwyntio ar y thema gyffredinol, 'Sut mae mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn ffordd deg?'. Darparodd Llywodraeth Cymru Becyn Trefnwyr i drefnwyr digwyddiadau yn amlinellu dau gwestiwn allweddol i lywio trafodaethau, pob un ag awgrymiadau am adrannau o ddiddordeb neu is-gwestiynau:

- Sut ydym ni'n lleihau allyriadau, ei gwneud yn deg i chi a sicrhau lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt?
- Sut ydym ni'n eich cynnwys chi mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn deg? Er enghraifft, a ydych chi'n meddwl bod digon o gyfleoedd i chi gymryd rhan?

3.3.3 Darllenodd y tîm ymchwil yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd â llaw ac yn llawn. Dadansoddwyd pob ymateb yn thematig i gasglu'r prif farn a fynegwyd gan ymatebwyr mewn themâu a deall y rhesymeg y tu ôl i atebion.

3.3.4 O ystyried ffocws gwahanol yr ymgynghoriad a'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd, cynhaliwyd y dadansoddiad thematig i ddechrau ar wahân ar gyfer y ddwy ffynhonnell ddata. Yn ddiweddarach, cafodd y canfyddiadau eu cyfuno i dynnu allan y themâu mwyaf cyffredin ar draws y ddau faes ac unrhyw feysydd lle'r oeddent yn ymwahanu; trafodir hyn ym Mhennod 6.

3.3.5 Yn seiliedig ar y themâu a nodwyd yn y dadansoddiad a chyfarfodydd tîm prosiect rheolaidd, datblygwyd Fframwaith Thematig cynhwysfawr i strwythuro ac arwain yr ymchwil. Roedd y Fframwaith Thematig yn cynnwys y set gychwynnol o themâu a gafwyd o'r dadansoddiadau a'r canllawiau ar gyfer yr ymchwilwyr ar ffurf disgrifiadau ac enghreifftiau o bob thema. Trwy greu a chytuno ar 'ddiffiniad' a set o enghreifftiau cynrychioliadol i bob thema, gellir sicrhau cysondeb mewn codio thematig ar draws holl aelodau'r tîm ymchwil a'r ddau weithgaredd ymchwil. Roedd y Fframwaith Thematig yn cael ei ddiweddaru'n barhaus wrth i'r dadansoddiad gael ei gynnal.

3.3.6 Cafodd yr holl themâu a nodwyd eu bwydo i mewn i lyfr cod cynhwysfawr yn seiliedig ar Excel, a ddefnyddiwyd wedyn i bennu'r themâu a godwyd amlaf ar gyfer pob cwestiwn, gyda'r mwyaf cyffredin ohonynt yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Cyflwynir themâu ar gyfer pob cwestiwn yn nhrefn amlder. Yn gyffredinol, mae'r pum thema fwyaf cyffredin ar gyfer pob cwestiwn yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn, gyda thri eithriad: (i) roedd yn rhaid i thema gael ei chodi gan o leiaf bum ymatebwr i'w dosbarthu fel thema yn yr adroddiad[12], (ii) mewn achosion lle codwyd y bumed a'r chweched thema yr un mor aml, cyflwynir y ddwy, a (iii) mewn achosion lle cytunodd y tîm ymchwil cyfan fod y chweched thema fwyaf cyffredin wedi cyfrannu gwybodaeth werthfawr a phenodol i'r cwestiwn a mwy na phump o ymatebwyr wedi ei nodi, cafodd ei hychwanegu at yr adroddiad. Bydd unrhyw thema a gafodd sylw gan lai na 10 o ymatebwyr yn cael ei dynodi felly yn yr adroddiad hwn.

[12] Mewn achosion lle nad oedd hyn yn wir ar gyfer y pum thema fwyaf cyffredin, sylwch y cyflwynir llai.

3.3.7 Mae dyfyniadau gan ymatebwyr yn dangos pob thema i gyfleu'r naratif o ran barn ymatebwyr. Dim ond os rhoddwyd caniatâd yn ystod yr ymgynghoriad a'u bod wedi'u cywiro mewn achosion o wybodaeth bersonol adnabyddadwy, gwallau teipograffig, ac atalnodi coll y defnyddiwyd dyfyniadau o'r ymgynghoriad. Ystyriwch fod yr holl ddyfyniadau uniongyrchol yn yr adroddiad hwn yn wreiddiol yn Saesneg ac wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ar gyfer fersiwn Gymraeg yr adroddiad.

### Ymatebion anstrwythuredig

3.3.8 Cyflwynwyd naw ymateb anstrwythuredig i'r ymgynghoriad drwy e-bost, nad oeddent yn dilyn fformat holiadur yr ymgynghoriad. Yn ogystal, nid oedd rhai adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn dilyn, neu ddim ond yn rhannol ddilyn, y cwestiynau allweddol a amlinellwyd yn y Pecyn Trefnwyr. Lle bo modd, cawsant eu hintegreiddio i'r Fframwaith Thematig presennol. Mae unrhyw themâu na chodwyd yn yr ymatebion strwythuredig ac nad oeddent yn mapio'n union i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad neu adroddiad hinsawdd yn cael eu cyflwyno a'u crynhoi mewn adrannau annibynnol.

## 3.4 Cyfyngiadau

3.4.1 Mae'n bwysig nodi nad yw'r atebion a gyflwynwyd i ymgynghoriad cyhoeddus yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan. Felly, dim ond barn y rhai sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod amser penodedig y mae'r adroddiad hwn yn ei chrynhoi. Gall ymatebwyr hefyd gynrychioli is-set fwy gwybodus o'r boblogaeth neu gyflwyno atebion i leisio barn neu gwynion penodol. O ganlyniad, dim ond barn ddangosol yn hytrach na chynrychioliadol yw'r farn o'r ymgynghoriad hwn.

3.4.2 Mae'r un peth yn wir am y rhai a gymerodd ran yn y digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd, lle mai dim ond dadansoddiad o farn y rhai oedd ar gael i fynychu'r digwyddiadau y bydd yr adroddiad hwn yn ei chyflwyno, fel y caiff ei chrynhoi gan ddrafftwyr yr adroddiad. Er bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â phwy drefnodd y digwyddiadau, mae diffyg data am y mynychwyr penodol, eu cysylltiadau, a pha wybodaeth a gyfrannwyd gan bwy. At hynny, er y rhoddwyd arweiniad i drefnwyr ar sut i strwythuro'r digwyddiadau a pha gwestiynau i'w trafod, efallai bod anghysondebau wedi digwydd yn y dewis o bynciau i'w trafod ac i fframio'r adroddiadau. Gallai'r cwestiynau a'r awgrymiadau a ddarparwyd hefyd fod wedi cyfyngu ar amrywiaeth y pynciau a drafodwyd yn ystod y digwyddiadau.

# 4. Canfyddiadau’r dadansoddiad o’r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg

## 4.1 Amlinelliad

4.1.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg, a chyflwynir canfyddiadau'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd ym Mhennod 5. Mae Adran 4.2 yn trafod tair thema gyffredinol a godwyd gan ymatebwyr ar draws y cyfan neu'r rhan fwyaf o gwestiynau'r ymgynghoriad. O adran 4.3 ymlaen, cyflwynir canlyniadau’r dadansoddiad thematig fesul cwestiwn, gan ddilyn y strwythur a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Mae Adran 4.4 yn cyflwyno’r themâu a drafodwyd mewn ymatebion nad oeddent yn dilyn strwythur holiadur yr ymgynghoriad.

## 4.2 Themâu trosfwaol

4.2.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno tair thema sy'n codi dro ar ôl tro a godwyd gan ymatebwyr ar draws y cyfan neu'r rhan fwyaf o gwestiynau'r ymgynghoriad, ond nad ydynt yn amrywio'n sylweddol o ran eu cynnwys na'u neges. Cânt eu trafod yn fanwl yn yr adran hon. Cyfeirir atynt yn nhermau amlder ar gyfer cwestiynau penodol yr ymgynghoriad.

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â’r holl randdeiliaid perthnasol**

4.2.2 Y thema trosfwaol amlaf oedd arwyddocâd ymgorffori barn yr holl randdeiliaid ar bob cam o'r broses o ddylunio, cynhyrchu a chyflenwi unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â phontio i sero net, yn enwedig grwpiau y gallai'r pontio effeithio'n negyddol arnynt. Yn gyffredinol, tynnodd ymatebwyr a gododd y thema hon sylw at yr angen i gynnwys pawb yn y trafodaethau a galw am gyfranogiad mwy a mwy penodol gan randdeiliaid er mwyn caniatáu cyd-gynhyrchu gwirioneddol o unrhyw bolisïau sy’n ymwneud â phontio i sero net. Soniodd yr ymatebwyr hyn yn aml y byddai ymgysylltu yn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu hysbysu a’u cefnogi yn ystod y cyfnod pontio. Nododd un ymatebwr a gododd y thema hon:

> ‘[…] – roedd rhan o drafodaethau diweddar yn cydnabod ei bod yn bwysig, ym mhob dull o bontio, bod ymgynghoriad sy’n ymwneud â sefydliadau yn cael ei gynnal gyda chymorth dinasyddion lle bynnag y bo’n bosibl – hynny yw, bod pobl yn teimlo’n ‘rhan o’ yn hytrach na bod rhywbeth wedi cael ‘ei wneud iddynt'; mae perygl i sefydliadau ddatblygu

> polisïau neu strategaethau heb i'r cyhoedd fod yn ymwybodol ohonynt na gwybod sut i gymryd rhan.' (Ymatebydd sefydliadol)

4.2.3 Pwysleisiodd is-grŵp o ymatebwyr bwysigrwydd ymgysylltu ar lefel gymunedol i sicrhau y gellir cyrraedd grwpiau nad ydynt yn aml yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau. Nododd yr ymatebwyr hyn y byddai cynnwys cymunedau yn arwain at bontio tecach wrth i anghenion lleol gael eu hystyried. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] O ran ymgysylltu'n adeiladol â'r gymuned, dyma a weithiodd i ni: Mewn lleoliad gwledig lle mae pobl wedi'u gwasgaru, rydym yn estyn allan at bobl, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, drwy gynnal cyfarfodydd mewn neuaddau pentref; trwy ymddiried mewn ffrindiau a grwpiau cyfarwydd i ledaenu gwybodaeth i gartrefi unig ac ynysig, ac mewn dewis ieithoedd; trwy osod gwybodaeth ar hysbysfyrddau pentrefi a swyddfeydd post. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel hysbysfwrdd digidol, ac apiau cyfathrebu i rannu gwybodaeth ac adeiladu rhwydweithiau, gan geisio cynnwys pobl hŷn ac iau o gefndiroedd ac ieithoedd amrywiol, gydag ystod o anghenion mynediad. […]' (Ymatebydd unigol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.2.4 Yr ail thema trosfwaol amlaf oedd ymatebwyr a oedd yn feirniadol o bontio i sero net yn gyffredinol. Unigolion oedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr a gododd y thema hon. Y prif bryderon a godwyd oedd pryderon ynghylch canlyniadau negyddol y newid i economi Cymru a'i phobl. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn pryderu am yr effeithiau y byddai'r cyfnod pontio yn ei gael ar fusnesau Cymru a sut y gallai'r posibilrwydd o golli swyddi orfodi pobl ifanc i adael Cymru. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Mae'r dull cyfan yn seiliedig ar ddull dogmatig o fynd i'r afael â sero net. Bydd eich gweledigaeth yn arwain at gau economi Cymru i bob pwrpas, ac allfudo torfol gan ein pobl ifanc i ddod o hyd i waith.' (Ymatebydd sefydliadol)[13]

[13] Sylwch, er bod y thema hon wedi'i chodi'n bennaf gan ymatebwyr unigol, ni roddodd y mwyafrif ohonynt ganiatâd i'w dyfyniadau gael eu cyhoeddi. Y dyfyniad hwn gan ymatebydd sefydliadol oedd y mwyaf cynrychioliadol o'r ymatebwyr a gododd y thema hon, gan gynnwys ymatebwyr unigol.

4.2.5 Roedd rhai ymatebwyr a gododd y thema hon yn dadlau mai dim ond effaith fach iawn fyddai unrhyw gamau a gymerir yng Nghymru yn ei chael ar yr argyfwng hinsawdd byd-eang. Pwysleisiwyd y cyfraniad cymharol fach sydd gan Gymru at allyriadau byd-eang ac na fyddai dim yn newid oni bai bod y gwledydd sydd â’r allyriadau uchaf yn gwneud newidiadau sylweddol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘Mae angen i Lywodraeth Cymru ail-raddnodi ei hymrwymiad i sero net yng nghyd-destun cynnydd byd-eang. Bach iawn yw cyfraniad carbon Cymru at newid hinsawdd byd-eang, a lle mae’n effeithio ar economi Cymru, rhaid i unrhyw uchelgeisiau sero net fod yn gymesur.’ (Ymatebydd sefydliadol)

4.2.6 Yn olaf, roedd grŵp o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o weithredu i bontio i sero net ar y sail bod angen mwy o ariannu mewn cyfeiriadau eraill. Roeddent yn pryderu am bwysau ar wasanaethau hanfodol megis y GIG, addysg a seilwaith ac yn meddwl y dylid defnyddio unrhyw arian cyhoeddus i sicrhau darpariaeth y gwasanaethau hyn cyn gwario arian ar bontio. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘Rwyf o'r farn bod yr holl broses hon yn anghywir o ran ei hamseriad. Ni allwn fforddio’r costau cysylltiedig pan fo toriadau’n digwydd i wasanaethau hanfodol. Dylai’r Senedd ohirio’r cyfnod pontio hwn a defnyddio’r arian i gefnogi awdurdodau lleol fel y gellir lleihau codiadau’r dreth gyngor heb niweidio’r ddarpariaeth o wasanaethau.’ (Ymatebydd unigol)

**Sicrhau cydraddoldeb i grwpiau a allai gael eu heffeithio’n andwyol gan y pontio**

4.2.7 Thema gyffredinol arall oedd ymatebwyr a oedd eisiau i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r newid i sero net yn gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn pryderu mai grwpiau ymylol fyddai’n gorfod ysgwyddo costau’r pontio heb ymyriadau, er mai nhw sydd wedi cyfrannu leiaf at y newid yn yr hinsawdd. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Rydym yn croesawu’r ffocws ar fynd i’r afael ag anghydraddoldebau a chynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig ac o bob cefndir economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhai sydd wedi cyfrannu leiaf at newid hinsawdd yn dioddef ei niwed yn anghyfiawn ac yn anghymesur. Rydym yn cytuno’n gryf y dylid gwreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol drwy gydol y broses.’ (Ymatebydd sefydliadol)

4.2.8 Tynnodd rhai o'r ymatebwyr hyn sylw at bwysigrwydd cynnal asesiadau effaith, fel bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o effeithiau andwyol posibl ac yn gallu eu lliniaru'n rhagweithiol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Mae angen i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) fod yn rhan hanfodol o sefydlu strwythur pontio teg. Dylai'r EIA asesu'n rhagweithiol effaith y polisïau ar wahanol grwpiau, gan ddarparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sefydliadau a llunwyr polisi. Dylai'r dadansoddiad hwn sicrhau bod polisïau, arferion a phrosesau'n gyfiawn ac yn deg, ac nad ydynt yn creu rhwystrau nac anfanteision i unrhyw grŵp penodol, yn enwedig y rheini â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio. Bydd y broses ragweithiol hon o lunio polisi yn darparu'r dull a'r ysgogiadau cywir ar gyfer pontio teg. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

4.2.9 Crybwyllwyd drwy gydol yr ymgynghoriad y gallai ystod eang o grwpiau gael eu heffeithio'n andwyol gan y pontio, a'r rhai a grybwyllwyd amlaf oedd trigolion ardaloedd gwledig, ffermwyr, grwpiau incwm is, ac unigolion oedrannus. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Dylai Cymru decach a gwyrddach olygu bod y llwybr at sero net mewn cymunedau gwledig yn sicrhau ffyniant economaidd a chynaliadwyedd y rhai sy'n byw ynddynt, a sicrhau nad yw cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn arwain at golli swyddi gyda'r sgil-effaith o lai o bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig a fyddai'n arwain at golli diwylliant ac a fyddai'n niweidiol i'r Gymraeg.' (Ymatebydd sefydliadol)

## 4.3 Adran Fframwaith: Cyflwyniad

4.3.1 O hyn ymlaen, cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad thematig fesul cwestiwn ac maent yn dilyn y strwythur a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn cynnwys tri chwestiwn. Roedd y cwestiwn cyntaf yn canolbwyntio ar y Weledigaeth a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, roedd yr ail yn gofyn am farn ar ddull arfaethedig pontio teg yng Nghymru, a'r trydydd yn gofyn am farn ar y strwythur trosfwaol arfaethedig ar gyfer pontio teg yng Nghymru. Mae'r cwestiynau llawn, gan gynnwys unrhyw ffactorau a awgrymwyd gan y ddogfen ymgynghori y gallai ymatebwyr ddymuno eu hystyried, i'w gweld yn yr atodiad.

### Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ynglŷn â’r Weledigaeth arfaethedig ar gyfer Cymru Decach a Gwyrddach erbyn 2050?

4.3.2 Ymatebodd 88 o bobl i’r cwestiwn hwn, gyda 45 yn ymatebwyr unigol a 43 yn ymatebwyr sefydliadol[14].

**Angen i'r Weledigaeth gael ffocws cryfach ar feysydd penodol**

4.3.3 Y thema a godwyd amlaf oedd ymatebwyr yn mynegi eu dymuniad i gael ffocws cryfach ar feysydd penodol o fewn y Weledigaeth. Yn nodweddiadol, roedd ymatebwyr yn y grŵp hwn yn gefnogol i’r Weledigaeth, ond yn dadlau bod angen cynnwys rhai meysydd yn fwy manwl.

4.3.4 Y maes y soniwyd amdano fwyaf oedd cadwraeth natur, a chodwyd hyn gan yr unigolion a'r ymatebwyr sefydliadol, gyda'r olaf yn bennaf yn sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau amgylcheddol. Amlygodd yr ymatebwyr hyn bwysigrwydd ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol a chadwraeth natur ochr yn ochr â newid yn yr hinsawdd. Roeddent yn argymell y dylai'r weledigaeth bwysleisio arwyddocâd natur a rhoi mwy o amlygrwydd iddi nag y mae'r 1 cyfeiriad presennol yn ei awgrymu. Un pryder yn ymwneud â’r maes hwn a godwyd yn aml oedd ffermydd gwynt ar raddfa fawr a’u heffaith andwyol ar natur a bioamrywiaeth. Yn gysylltiedig â hynny, roedd rhai ymatebwyr a gododd y thema gyffredinol hon yn pryderu am yr effaith y gallai gostyngiad mewn bioamrywiaeth a mynediad at natur ei chael ar iechyd a llesiant poblogaeth Cymru. Roedd rhai ymatebwyr yn priodoli’r gostyngiad hwn mewn bioamrywiaeth a natur i effeithiau uniongyrchol newid yn yr hinsawdd, tra bod eraill yn dadlau y gallai prosiectau ynni adnewyddadwy – megis gwynt ar y tir – danseilio mynediad at natur. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] O ystyried bod Cymru'n wynebu argyfwng Bioamrywiaeth, sy’n digwydd ochr yn ochr â'r argyfwng Newid Hinsawdd ac sy’n rhyngddibynnol, nid yw Natur (Cymru Gydnerth yn DLICD) yn ddigon pwysig yn y weledigaeth. […] Nid yw’r gwasanaethau ecosystem a ddarperir i bobl Cymru gan fioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn y modd priodol yn y ddogfen hon, er bod eu dirywiad yn sicr wedi bod yn bontio annheg yn y ganrif flaenorol. Dim ond yng nghanol para.3 y mae natur yn ymddangos. Mae’n drydydd anghydweddol mewn rhestr o bethau a fydd yn cael eu heffeithio: ‘Fe wnaethom sicrhau ein bod yn deall effaith y

[14] Sylwch nad yw'r nifer hwn nac unrhyw nifer o ymatebwyr canlynol ar gyfer cwestiynau penodol yn cynnwys ymatebwyr sydd wedi nodi na fyddant yn ateb y cwestiwn.

penderfyniadau a wnaethom wrth ddatblygu ein polisïau a'n gweithredoedd hinsawdd ar weithwyr, cymunedau, pobl, byd natur a busnesau'. Dylai fod hwn yn destun paragraff allweddol ei hun […]' (Ymatebydd unigol)

4.3.5 Y ddau faes arall yr oedd ymatebwyr a gododd y thema hon yn aml yn meddwl eu bod yn cael eu tangynrychioli yn y Weledigaeth oedd trafnidiaeth a thai. Er eu bod wedi'u crybwyll yn y Weledigaeth, roedd yr ymatebwyr hyn yn pryderu mai dim ond yng nghyd-destun lliniaru anghydraddoldeb iechyd y cyfeiriwyd atynt. O ran trafnidiaeth, roedd gan ymatebwyr bryderon ynghylch cosbi'r defnydd o gerbydau motor tanio mewnol cyn bod dewisiadau amgen hyfyw megis seilwaith cerbydau trydan da, tanwyddau amgen, a thrafnidiaeth gyhoeddus hygyrch yn bodoli ac yn fforddiadwy. Codwyd tai yn gyffredinol gan yr ymatebwyr sefydliadol, a amlygodd bwysigrwydd mynediad at dai fforddiadwy ac ynni-effeithlon fel sylfaen gadarn ar gyfer pontio teg. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Croesewir y cyfeiriad at y cyfnod pontio sydd wedi helpu i liniaru anghydraddoldeb iechyd drwy gamau a gymerwyd i wella cartrefi, diet a dewisiadau trafnidiaeth pobl. Fodd bynnag, mae ffactorau fel tai a thrafnidiaeth yn llawer ehangach na lleihau anghydraddoldeb iechyd. Dylid ystyried gwelliannau i dai a thrafnidiaeth fel agweddau allweddol gan ddatgloi ystod o fuddion ar draws meysydd lluosog, gan gynnwys llesiant personol a chydlyniant cymunedol, yn ogystal â lleihau anghydraddoldebau iechyd.[…]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.3.6 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd anghytundeb cyffredinol â'r cynnig i bontio i sero net. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan unigolion. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn yr adran 4.2.

**Sicrhau cydraddoldeb i grwpiau a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan y pontio**

4.3.7 Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â'r pontio yn gyffredinol, thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2.

**Cytuno â'r Weledigaeth ond cynnig newidiadau i'r dull cyffredinol**

4.3.8 Y bedwaredd thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn cynnig newidiadau i'r dull cyffredinol at y Weledigaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn yn cymeradwyo'r Weledigaeth ond am ei gweld yn cael ei gweithredu'n wahanol. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd y dylai'r Weledigaeth gymryd agwedd fwy cyfannol.

Crybwyllwyd hyn yn aml mewn cysylltiad â mynd i'r afael â materion pwysig megis anghydraddoldebau, newid yn yr hinsawdd a chadwraeth natur ar yr un pryd. Awgrymodd is-grŵp arall o ymatebwyr, sefydliadau'n bennaf, y dylai'r Weledigaeth gynnwys safbwyntiau amrywiol, gan ddisgrifio sut fyddai gwahanol bobl yn edrych ar y Weledigaeth honno. Yn olaf, tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith mai un o'r heriau mwyaf i Lywodraeth Cymru fydd sut y caiff y Weledigaeth ei chyfleu i'r cyhoedd. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[Mae'r sefydliad] wedi dadlau (yn fwyaf diweddar yn ystod trafodaethau'r Bil Amaethyddiaeth ac ynghylch dyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd ac yn ystod yr ymgynghoriad terfynol ar yr CFfC) y dylid defnyddio diffiniad ac ystyriaeth gyfannol o 'Gynaliadwyedd', sydd hefyd yn berthnasol i sicrhau Pontio Teg i Sero Net. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori a chyfuno holl elfennau cynaliadwyedd; cymdeithasol/diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod Pontio Teg yn ystyried yr holl faterion rhyng-gysylltiedig (sy'n arbennig o bwysig mewn perthynas â defnydd tir), a fydd yn galluogi dadansoddiad o gyfnewidiadau tra hefyd yn helpu i nodi 'enillion' neu gamau gweithredu a all sicrhau buddion lluosog. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Cytundeb ond mae rhai elfennau ar goll o'r Weledigaeth**

4.3.9 Y pumed thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn cytuno â'r Weledigaeth gyffredinol ond yn mynegi pryder am elfennau coll. Soniodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon y dylai'r Weledigaeth gynnwys mwy o fanylion am sut y byddai ynni'n cael ei gynhyrchu, ei gludo a'i ddefnyddio. Yn benodol, roedd ymatebwyr a gododd y thema hon am weld ymrwymiad i system ynni fforddiadwy a gwydn, manylion am fuddsoddiadau angenrheidiol yn y seilwaith ynni, ymrwymiadau i dechnolegau penodol fel gwynt a solar, a thrafodaethau ar berchnogaeth adnoddau ynni. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion gan y grŵp hwn gan ymatebwyr sefydliadol. Teimlai grŵp arall fod y Weledigaeth yn ddiffygiol o ran yr elfen o sicrwydd a chyflenwad bwyd. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn bryderus ynghylch argaeledd a fforddiadwyedd bwyd a gynhyrchwyd yn lleol, o ystyried y pwysau yr oedd ffermwyr danynt, a'r newidiadau i ddefnydd tir y gallai unrhyw newid i sero net ei olygu. Yn olaf, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Weledigaeth gynnwys elfennau o sut y byddai newidiadau'n cael eu monitro a sut y byddai gwahanol chwaraewyr yn cael eu dwyn i gyfrif. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Ychwanegiad pellach y byddem yn argymell ei gynnwys yw ymrwymiad i ddarparu system ynni yn y dyfodol sy'n fforddiadwy, yn wydn ac yn ymroddedig i gyflenwad ynni glân ar gyfer cartrefi, busnesau a chymunedau Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod Cymru’n dod yn decach ac yn fwy gwyrdd i bawb, a thrwy symud i ffwrdd oddi wrth danwydd ffosil a gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau cynhyrchu adnewyddadwy cost is, byddai’n helpu Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â thlodi tanwydd.’ (Ymatebydd sefydliadol)

### Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ynglŷn â’n hymagwedd arfaethedig at bontio teg yng Nghymru?

4.3.10 Ymatebodd 85 o bobl i'r cwestiwn hwn, gyda 43 yn ymatebwyr unigol a 42 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Cytundeb cyffredinol gyda’r dull arfaethedig o bontio teg yng Nghymru a rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

4.3.11 Y thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn croesawu'r dull arfaethedig o ymdrin â phontio teg yng Nghymru. Daeth mwyafrif yr ymatebion gan ymatebwyr sefydliadol. Mynegodd yr holl ymatebwyr yn y grŵp hwn eu cymeradwyaeth i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (DLlCD) fel fframwaith arweiniol. Dywedodd yr ymatebwyr a gododd y thema hon fod DLlCD yn darparu fframwaith cydlynol a chynaliadwy i roi pontio teg ar waith. Dadleuodd rhai ymatebwyr fod DLlCD yn cyd-fynd yn dda gan ei bod yn gweithredu safbwynt cyfannol ac yn canolbwyntio ar gynhwysiant ac anghydraddoldebau. Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr yn gwerthfawrogi y byddai defnyddio DLlCD fel fframwaith arweiniol yn adeiladu ar ffordd sefydledig o weithio y mae gwahanol actorion eisoes yn gyfarwydd â hi. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘Mae’r dull gweithredu arfaethedig yn rhoi arweiniad clir ar sut i bontio i Sero Net mewn ffordd sy’n deg i bawb, ac yn gynhwysol. Mae’r defnydd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD) fel fframwaith arweiniol yn gwneud synnwyr gan fod y polisi hwn eisoes yn bodoli ac yn gorgyffwrdd â’r polisi pontio teg. Mae’r DLlCD yn rhoi arweiniad ar sut mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithredu o ran gweithio gyda phobl a chymunedau ac ystyried goblygiadau hirdymor eu gweithredoedd. […]’ (Ymatebydd sefydliadol)

**Sicrhau cydraddoldeb i grwpiau a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan y pontio**

4.3.12 Yr ail thema ar y cyd oedd y thema gyffredinol o sicrhau bod grwpiau sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y pontio yn cael eu cefnogi. Trafodir y thema hon yn fanylach yn adran 4.2.

**Mae angen cryfhau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn ei defnyddio fel fframwaith arweiniol ar gyfer pontio teg**

4.3.13 Y thema nesaf a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd bod angen cryfhau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cyn y gellir ei defnyddio fel fframwaith arweiniol llwyddiannus ar gyfer pontio teg. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr hyn yn croesawu'r defnydd o'r DLlCD fel fframwaith arweiniol, mynegwyd pryderon ganddynt ynghylch ei gweithrediad yn ymarferol. Y pryder mwyaf cyffredin oedd bod diffyg gorfodaeth ac atebolrwydd yn y DLlCD; codwyd hyn yn bennaf gan yr ymatebwyr sefydliadol. Awgrymwyd bod angen cyfuno'r DLlCD â fframwaith monitro clir sy'n cynnwys metrigau diriaethol. Codwyd y ddadl hon yn aml mewn cysylltiad â'r ffaith mai dim ond i gyrff cyhoeddus y mae'r DLlCD yn berthnasol ar hyn o bryd, ac efallai nad yw'r sector preifat yn gyfarwydd â'r ddeddf. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Er y gallwn ddeall y rhesymeg y tu ôl i ddefnyddio'r DLlCD fel rhan o fframwaith arweiniol ar gyfer pontio teg yng Nghymru, rydym yn ystyried hyn yn broblematig ar sawl lefel. I bobl a sectorau nad ydynt eisoes wedi ymgolli'n ddwfn yn yr ymdrechion i symud tuag at economi carbon isel, teimlwn mai'r DLlCD yw'r arf anghywir i ddefnyddio i adeiladu'r fframwaith hwn. Yn gyntaf, mae'r DLlCD yn ddarn o ddeddfwriaeth uchelgeisiol i raddau helaeth, heb fecanweithiau gorfodi ac atebolrwydd. Mae'n berthnasol i ystod gyfyngedig o gyrff cyhoeddus, a bydd cyfnod pontio gwirioneddol deg yn cynnwys llawer o actorion eraill, (os caiff ei wneud yn effeithiol) nad ydynt efallai'n gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth. Nid yw'r DLlCD yn berthnasol i'r sector preifat na'r trydydd sector ar hyn o bryd – er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r ddau sector fel partneriaid craidd yn y weledigaeth ar gyfer pontio teg. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

4.3.14 Lleisiodd rhai ymatebwyr eraill, er bod y DLlCD yn ganmoladwy, mai araf fu ei gweithrediad yn ymarferol ac anogwyd Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Yn olaf, rhoddodd ychydig o ymatebwyr awgrymiadau penodol ar sut y gellid cryfhau'r DLlCD: drwy ffurfio corff annibynnol – tebyg i Gomisiwn Pontio Teg Llywodraeth yr Alban – i roi cyngor a chymorth ynghylch gweithredu pontio teg

neu drwy ei gysylltu â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘Rydym yn croesawu’r dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer pontio teg a'r defnydd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (DLICD) fel fframwaith arweiniol. Er mwyn sicrhau bod y DLICD yn cael ei hystyried ym mhob agwedd ar bontio teg, dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ddefnydd yr Alban a Llywodraeth yr Alban o'r Comisiwn Pontio Teg. Mae’r corff hwn yn cynghori Llywodraeth yr Alban ar y cyfleoedd a’r heriau a ddaw yn sgil pontio teg. Credwn y bydd corff tebyg yng Nghymru sy’n dod ag ystod o randdeiliaid ynghyd yn helpu i sicrhau bod tegwch a chyfiawnder yn cael eu hymgorffori yn y pontio i sero net. […]’
> (Ymatebydd sefydliadol)

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â’r holl randdeiliaid perthnasol**

4.3.15 Y gydradd drydedd thema gyffredin oedd y thema gyffredinol o bwysigrwydd cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol, a drafodir yn adran 4.2.

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.3.16 Y gydradd drydedd thema fwyaf cyffredin arall a godwyd gan ymatebwyr oedd anghytundeb cyffredinol â'r cynnig i bontio i sero net. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan ymatebwyr unigol. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2.

**Mewnbynnau penodol ar fathau o gyfiawnder**

4.3.17 Yn olaf, nododd set o ymatebwyr awgrymiadau penodol ynghylch y mathau o gyfiawnder y mae'r dull yn eu hystyried. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn y grŵp hwn yn ymatebwyr sefydliadol, ac roeddent yn sôn am fathau eraill o gyfiawnder y dylid eu hychwanegu at y Fframwaith, e.e., cyfiawnder amgylcheddol, cyfiawnder hinsawdd, cyfiawnder ynni, cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder byd-eang. Roedd rhai awgrymiadau cyffredinol yn cynnwys (i) defnyddio dull mwy cyfannol drwy ddatgan yn benodol na fydd y mathau o gyfiawnder yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain, (ii) newid i naws fwy cadarnhaol yn yr adran hon drwy amlygu cyfleoedd hefyd, a (iii) gwneud yn siŵr bod y mathau o gyfiawnder yn canolbwyntio ar brofiadau Cymreig. Yn olaf, galwodd ymatebwyr eraill yn y grŵp hwn am ragor o fanylion am y mathau o gyfiawnder a awgrymwyd, megis (i) sôn yn benodol am gyd-gynhyrchu i sicrhau cyfiawnder gweithdrefnol, (ii) sut i gydbwyso cyfiawnder i genedlaethau’r presennol â chyfiawnder i genedlaethau’r dyfodol, pan na ellir rhagweld a rhoi cyfrif

penodol am gostau a buddion, a (iii) ystyried nid yn unig gwahaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol ond hefyd gwahaniaethau mewn seilwaith ac asedau ar gyfer cyfiawnder cydnabod. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Rydym yn derbyn bod llawer o ddehongliadau o bontio teg ac yn cefnogi'r cynnig a gafwyd i bontio'n deg; fodd bynnag, mae cyfle i sicrhau bod mathau eraill o gyfiawnder yn cael eu cydnabod, megis cyfiawnder hinsawdd, cyfiawnder ynni, cyfiawnder symudedd cymdeithasol neu gyfiawnder cymdeithasol, a all atseinio ag eraill. Mae'n bwysig felly bod rhywfaint o hyblygrwydd wrth ddefnyddio dull nad yw'n eithrio mathau eraill o gyfiawnder ac a allai fel arall gyfyngu ar opsiynau sy'n effeithio ar wneud penderfyniadau. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

## Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ynglŷn â strwythur cyffredinol y fframwaith arfaethedig?

4.3.18 Ymatebodd 74 o bobl i'r cwestiwn hwn, gyda 39 yn ymatebwyr unigol a 35 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Croesawu'r strwythur trosfwaol**

4.3.19 Y thema amlycaf a godwyd gan ymatebwyr oedd croesawu strwythur trosfwaol y Fframwaith Pontio Teg. Roedd llawer o ymatebwyr a gododd y thema hon yn croesawu'r rhyng-gysylltedd sy'n gynhenid i'r strwythur a rôl y diagram wrth weld pwysigrwydd ystyried gwneud penderfyniadau, hwyluso rhanddeiliaid, a dadansoddi effeithiau a chyfleoedd yn gyfannol. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn croesawu'n benodol rôl y DLICD yn y strwythur, gan nodi bod hyn yn rhoi mwy o gyfreithlondeb i'r strwythur ac yn asio â phrosesau parhaus. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Mae'r penderfyniad i'r strwythur arfaethedig integreiddio'r pontio teg gyda'r broses o wneud penderfyniadau yn gam pwysig o ran yr ystyriaethau blaenaf yng nghyswllt effeithiau ehangach penderfyniadau a sut y gallant gyfyngu neu fygwth cyflawni pontio teg. Mae'r cam hwn yn bwysig i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda phontio teg wrth ei wraidd. At hynny, mae dadansoddi effeithiau a'i gynnwys mewn gwahanol grwpiau mewn cymdeithas yn gynhwysiant pwysig ac yn cysylltu'n ôl â'r weledigaeth ehangach a nodir yn y fframwaith ar gyfer sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant yng ngweledigaeth 2050 Cymru yn y dyfodol. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Beirniadaeth o’r strwythur trosfwaol**

4.3.20 Y gydradd ail thema fwyaf cyffredin oedd beirniadaeth o'r strwythur trosfwaol. Trafodwyd y thema hon yn aml ymhlith ymatebwyr unigol. Cododd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr hyn bryderon ynghylch lefel y manylder a’r canolbwyntio yn y strwythur, gyda rhai yn pryderu nad yw’r Fframwaith yn ddigon penodol i strwythuro’r penderfyniadau sy’n angenrheidiol i gyflawni pontio teg. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Mewn sefyllfaoedd lle mae gwahanol effeithiau negyddol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd, teimlaf fod angen i’r fframwaith hwn ystyried sut y bydd penderfyniadau’n cael eu gwneud. Er enghraifft pan fo tref yn wynebu llifogydd, ond mae pympiau’n ddrud ac yn anghynaliadwy yn y pen draw, ac mae’r ardal yn addas fel gwlyptir i leihau’r perygl o lifogydd i gymunedau eraill - ar yr un pryd, mae’r gymuned leol yn teimlo’n gryf y byddai eu hiechyd a’u llesiant, cydlyniant a gwydnwch yn cael ei effeithio'n negyddol drwy eu hailgartrefu. Bydd y mathau hyn o benderfyniadau yn gynyddol angenrheidiol, ac yn gymhleth. A yw pob nod llesiant wedi’i bwysoli’n gyfartal? Sut mae llesiant cenedlaethau’r dyfodol yn bwydo i mewn i wneud penderfyniadau? Ar gyfer sawl cenhedlaeth i'r dyfodol y mae effaith yn cael ei gyfrifo? Hoffwn weld matrics/system fwy concrid o bwyso a mesur materion cymhleth. […]’ (Ymatebydd unigol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.3.21 Y gydradd ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd anghytundeb cyffredinol â'r cynnig ar gyfer pontio. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan unigolion. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2.

**Gwelliannau a awgrymir i’r strwythur trosfwaol**

4.3.22 Y drydedd thema a godwyd amlaf ar y cyd gan ymatebwyr oedd amrywiaeth o awgrymiadau i wella strwythur cyffredinol y Fframwaith, gyda mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr hyn hefyd yn croesawu'r strwythur. Yr awgrym a grybwyllwyd amlaf oedd i Lywodraeth Cymru ystyried fframwaith monitro ehangach i gefnogi Fframwaith Pontio Teg a'i weithrediad. Roedd y rhain yn cynnwys galw am i’r strwythur gyfeirio’n gryfach at Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG) y Cenhedloedd Unedig a ddeellir yn fyd-eang a

fframwaith monitro Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ' […] Fel y dywed Llywodraeth Cymru, mae llawer o enghreifftiau a phrofiadau rhyngwladol y gellir eu defnyddio i helpu i gyfleu negeseuon allweddol. Byddem hefyd yn amlygu, fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 2, y gallai ystyried sut i gyfathrebu pontio teg ochr yn ochr â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy helpu i sicrhau ymrwymiad a gallai helpu i ddarparu fframwaith ymgysylltu syml, sefydledig. Byddem yn nodi bod Llywodraeth yr Alban wedi mabwysiadu dull tebyg wrth ddatblygu ei chanlyniadau a'i fframwaith cenedlaethol.' (Ymatebydd sefydliadol)

4.3.23 Galwodd rhai ymatebwyr am ffocws mwy penodol ar natur, bioamrywiaeth, a lleihau allyriadau carbon yn y Fframwaith, yn enwedig ei adran 'effeithiau a chyfleoedd'. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Dylai'r amgylchedd naturiol gael ei gynrychioli'n glir yn y fframwaith, ac nid dim ond ei gynnwys o dan "sectorau allyriadau" […]' (Ymatebydd sefydliadol)

4.3.24 Roedd argymhellion penodol a grybwyllwyd unwaith yn unig yn cynnwys (i) rhoi mwy o eglurder ynghylch y sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflenwi elfennau'r Fframwaith, gan gynnwys egluro cyfrifoldebau'r sector preifat a'r trydydd sector, (ii) cynrychiolaeth i wleidyddion fel rhan 'swigen' gwneud penderfyniadau'r Fframwaith oherwydd eu pwysigrwydd wrth ddehongli a gweithredu ar y Fframwaith, a (iii) sicrhau bod yr egwyddorion arweiniol yn cael eu cynrychioli mewn modd sy'n dangos eu perthnasedd i bob agwedd ar y Fframwaith yn hytrach nag ar wneud penderfyniadau yn unig.

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol**

4.3.25 Y drydedd thema arall ar y cyd fwyaf cyffredin oedd pwysigrwydd cynhwysiant ac ymgysylltu. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion gan ymatebwyr sefydliadol. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn adran 4.2.

4.3.26 Nododd rhai ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn benodol y byddai angen cyfathrebu cynnwys a strwythur y Fframwaith Pontio Teg yn glir ac yn gryno wrth geisio ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu allan i'r llywodraeth i gyflenwi pontio teg.

## 4.4 Adran Fframwaith: Rhan 1 – Integreiddio pontio teg yn ein proses gwneud penderfyniadau

4.4.1 Roedd yr adran hon o’r ddogfen ymgynghori yn cynnwys dau gwestiwn, un yn canolbwyntio ar yr egwyddorion arweiniol ar gyfer pontio teg a’r llall yn canolbwyntio ar ddull arfaethedig o gynllunio pontio teg, ac yn cynnwys ystyried cyd-destunau geo-ofodol, sefydliadol, datblygu polisi, a chyfannol.

### Cwestiwn 4: Beth yw eich barn ynglŷn â’r egwyddorion canllaw?

4.4.2 Ymatebodd 76 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn, gyda 35 yn ymatebwyr unigol a 41 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Beirniadaeth o elfennau penodol o'r egwyddorion arweiniol**

4.4.3 Y thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd beirniadaeth o elfennau penodol o'r egwyddorion arweiniol. O fewn y grŵp hwn, y pryder mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd ei bod yn anodd trosi’r egwyddorion yn gamau gweithredu a'u bod braidd yn amwys, y byddai angen mwy o enghreifftiau darluniadol a chanllawiau penodol i roi’r egwyddorion ar waith, ac y dylent fod ar gael i’r cyhoedd. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Byddai’n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru nodi’n union sut y mae’n bwriadu ymgorffori’r egwyddorion hyn wrth wneud penderfyniadau ar lefelau llywodraeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol, a fydd i gyd yn hanfodol ar gyfer y cyfnod pontio.’ (Ymatebydd sefydliadol)

4.4.4 Galwodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch sut y dylid gwerthuso cyfnewidiadau wrth ystyried yr egwyddorion arweiniol. Roeddent yn awgrymu dull mwy cyfannol ond ni wnaethant gynnig awgrymiadau penodol ar sut i ddiwygio'r egwyddorion i'w gwneud yn gyfannol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Mae gan yr Egwyddorion Arweiniol, fel y'u hysgrifennwyd, y bwriad iawn ond efallai na fyddant yn goresgyn gwrthdaro rhwng blaenoriaethau amgylcheddol cystadleuol. Enghraifft o hyn yw ardaloedd coetir sydd o fewn parthau datblygu Ffermydd Gwynt; a'r gystadleuaeth rhwng atal datgoedwigo a chyflawni gostyngiadau mewn allyriadau carbon drwy ddatblygiad Fferm Wynt ddamcaniaethol. Oni bai bod y Polisi'n cael ei ddiweddaru i ystyried yr holl agweddau amgylcheddol trwy wneud penderfyniadau cyfannol, bydd penderfyniadau cynaladwyedd is-optimaidd yn cael eu gwneud. Gallai’r rhain gael effaith andwyol ar elfennau ehangach o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, megis

> colli amwynderau awyr agored mewn cymunedau bregus/gwledig.' (Ymatebydd sefydliadol)

4.4.5 Nododd ymatebwyr eraill a gododd y thema hon fod yr egwyddorion arweiniol yn rhy unffurf i fod yn berthnasol i'r amrywiaeth o sefydliadau sydd angen gweithredu'r newidiadau er mwyn i Gymru gyrraedd cyfnod pontio teg. Roedd y rhain yn galw am i'r egwyddorion arweiniol egluro'n fwy penodol y disgwyliadau sydd gan Lywodraeth Cymru o'r sector preifat ac eraill, efallai drwy ddefnydd cynyddol o astudiaethau achos ac arfer gorau. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] byddem yn annog y defnydd o astudiaethau achos, enghreifftiau a rhannu arfer da o Gymru a thu hwnt. Bydd hyn yn hollbwysig, yn enwedig i actorion llai profiadol (neu fwy tawedog). Byddem yn annog mireinio'r pecyn cymorth i gefnogi dealltwriaeth o sut y gellid cymhwyso'r egwyddorion arweiniol (neu sut y gwnaed hynny) yn ogystal â darparu ystod o gyfleoedd i rannu dysgu a phrofiadau. Gellir teilwra'r pecynnau cymorth ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd e.e. sector preifat/trydydd sector a chynnwys camau gweithredu diriaethol a weithredwyd eisoes yng Nghymru yn ogystal â thu hwnt. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Cytundeb â'r egwyddorion arweiniol**

4.4.6 Yr ail thema amlycaf a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd cytundeb cyffredinol gyda'r egwyddorion arweiniol a fynegwyd fel rhan o'r Fframwaith Pontio Teg. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion gan ymatebwyr sefydliadol. Canmolodd y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn yn benodol y syniad o ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng nghynigion gwneud penderfyniadau y Fframwaith Pontio Teg, a dadleuodd yr ymatebwyr y byddent yn gweithredu fel arf defnyddiol a chefnogol i ategu'r egwyddorion a phontio teg yng Nghymru. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod y Ddeddf yn arf defnyddiol oherwydd bod ymarferwyr polisi a sefydliadau eisoes yn gyfarwydd â'i defnyddio i lywio eu penderfyniadau ar faterion amgylcheddol a materion eraill. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Mae defnyddio nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi ac ategu'r egwyddorion arweiniol yn darparu fframwaith cryf i'w ddefnyddio er mwyn cyflawni Pontio Teg i economi carbon isel yng Nghymru. Mae'r nodau Llesiant a'r dull DLICD ehangach eisoes yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau nad yw penderfyniadau a wneir yn y presennol yn achosi niwed i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r dull hwn hefyd yn allweddol i ystyriaethau o sicrhau pontio teg fel nad ydym yn ailadrodd y

niwed i weithwyr a chymunedau yn sgil pontio ynni blaenorol nawr neu yn y dyfodol. Felly mae defnyddio nodau llesiant DLlCD i danategu'r egwyddorion arweiniol yn ddefnyddiol er mwyn darparu eglurder, cefnogi gwneud penderfyniadau teg a sicrhau bod hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol yn cael sylw gyda'i gilydd. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Dylai'r arweiniad ffocysu mwy ar faterion penodol**

4.4.7 Y drydedd thema gyffredin ar y cyd oedd galwadau ar i'r canllawiau ffocysu mwy ar rai materion a phynciau penodol. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a gododd y thema hon am fwy o ffocws ar fioamrywiaeth a natur o fewn pontio teg, gan gynnwys mesur yn fwy trylwyr ac aml, a chynyddu enillion bioamrywiaeth net. Codwyd y maes ffocws hwn gan unigolion ac ymatebwyr sefydliadol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] gallai'r egwyddor o wella'r amgylchedd naturiol fod yn ddatganiad mwy cadarn, yn enwedig o ystyried bod Cymru ymhlith y gwledydd sy'n prinhau fwyaf o ran natur yn y byd, gydag 1 o bob 14 o rywogaethau bywyd gwyllt yn wynebu difodiant; hynny yw, dylid cefnogi'r argyfwng natur/argyfwng ag egwyddorion sy'n nodi'r brys sydd ei angen o ran camau gweithredu. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

4.4.8 Cynigion eraill a godwyd gan ymatebwyr oedd (i) i'r egwyddorion arweiniol gynnwys mwy o gyfeiriad at addysgu arferion sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a 'sgiliau gwyrdd' mewn lleoliadau addysg, (ii) sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau i weithredu pontio teg tra'n diogelu gwasanaethau craidd, a (iii) pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd y cyhoedd a thai fel rhan o bontio teg.

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol**

4.4.9 Y drydedd thema arall ar y cyd mwyaf cyffredin oedd pwysigrwydd cynhwysiant ac ymgysylltu. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanylach yn adran 4.2.

4.4.10 Elfen unigryw o'r ymatebion a gododd y thema hon oedd pwysigrwydd rhannu astudiaethau achos ar sut y gall sefydliadau ymgysylltu â chymunedau a grwpiau ymylol wrth weithredu'r egwyddorion arweiniol yn eu gwaith eu hunain. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> "[…] byddem yn annog y defnydd o astudiaethau achos, gwrando ar ac ymddiried mewn mewnbwn gan sefydliadau ar lawr gwlad a rhannu arfer da o fewn Cymru, gan gefnogi ac ymddiried ym mhobl Cymru i wybod sut i nodi a mabwysiadu egwyddorion da. […]" (Ymatebydd sefydliadol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.4.11 Y bedwaredd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd anghytundeb cyffredinol â'r cynnig i bontio i sero net. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan unigolion. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2.

## Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ynglŷn â'r ymagwedd arfaethedig at gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio?

4.4.12 Ymatebodd 66 o bobl i'r cwestiwn hwn, gyda 34 yn ymatebwyr unigol a 32 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol**

4.4.13 Y thema a godwyd amlaf oedd pwysigrwydd cynnwys yr holl randdeiliaid wrth gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn adran 4.2.

**Cytundeb cyffredinol gyda'r dull arfaethedig o gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio**

4.4.14 Yr ail thema a godwyd amlaf oedd cytundeb cyffredinol gyda'r dull arfaethedig o gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion gan ymatebwyr sefydliadol. Roeddent yn tueddu i werthfawrogi'r hyn a welent fel dull cyfannol y Fframwaith o gynllunio a phwysleisiwyd bod angen ystyried pob maes ar gyfer pontio teg. Yn fwy penodol, roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'n benodol integreiddio'r ymrwymiadau cyfreithiol presennol sydd wedi'u gosod ar gyrff cyhoeddus o fewn y Fframwaith Pontio Teg, ond mynegwyd pryder hefyd bod y dull a ddymunir gan gyrff nad ydynt yn gyrff cyhoeddus yn llai clir. Awgrymwyd y gallai cynnwys mwy o astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer gorau helpu gyda hyn. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[Mae'r Sefydliad] yn cymeradwyo'n llwyr ddull cyfannol Llywodraeth Cymru o gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o bontio fel yr amlinellir yn y Fframwaith Pontio Teg. Mae'r dull hwn yn hanfodol i sicrhau bod y newid i sero net yn deg, gan ystyried y sbectrwm eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. O ran y gwahanol fathau o bontio mae [y Sefydliad] yn cydnabod cynwysoldeb a thrylwyredd y fframwaith, gan werthfawrogi ei gyrhaeddiad ar draws meysydd geo-ofodol, sefydliadol, datblygu polisi a chyfannol. Mae'r strategaeth amlochrog hon yn sicrhau bod y symudiad tuag at ddyfodol carbon isel

yn cael sylw ym mhob agwedd, o weithredu cymunedol lleol i bolisi cyffredinol y llywodraeth. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.4.15 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd anghytundeb cyffredinol â'r cynnig i bontio i sero net. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan unigolion. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2.

**Ymagwedd angen ffocws cryfach ar feysydd penodol**

4.4.16 Y bedwaredd thema amlaf oedd ymatebwyr yn mynegi eu dymuniad i weld ffocws cryfach ar rai meysydd. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno'n gyffredinol â'r dull arfaethedig ond yn tynnu sylw at feysydd gweithredu penodol. Nid oedd consensws ynghylch beth ddylai'r meysydd hyn fod. Y rhai a grybwyllwyd fwy nag unwaith oedd yr angen i gynyddu effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, a chanolbwyntio ar warchod natur a bioamrywiaeth—megis drwy dargedau adfer o natur rwymol mewn cyfraith o fewn Asesiadau Effaith Integredig. Galwodd ymatebwyr eraill a gododd y thema hon am fwy o eglurder ar rôl pontio teg o fewn Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Asesiadau Effaith Integredig. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Mae gan Gymru'r anheddau hynaf a lleiaf thermol-effeithlon o'i gymharu â gwledydd eraill y DU a gwledydd gogledd Ewrop, ac mae ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill y DU o ran uwchraddio effeithlonrwydd ynni ei stoc tai. Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd tlotach yng Nghymru; mae mwy nag 80% o aelwydydd tanwydd-anghenus yng Nghymru yn byw mewn cartrefi aneffeithlon. Dylai gwell effeithlonrwydd ynni dargedu'r cartrefi hyn yn gyntaf er mwyn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed rhag prisiau ynni cyfnewidiol. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Beirniadaeth o rai elfennau o'r dull arfaethedig o gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio**

4.4.17 Y bedwaredd thema fwyaf amlwg oedd beirniadaeth o rai elfennau o'r dull arfaethedig o gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Y maes beirniadaeth a grybwyllwyd amlaf oedd bod y dull gweithredu arfaethedig yn rhy amwys a bod angen mwy o fanylion i weld sut y gellid ei droi'n weithredu. Yn ogystal, mynegodd rhai o'r ymatebwyr hyn bryderon y byddai ystyried pontio teg yn ofyniad cyfreithiol ychwanegol ar gyrff cyhoeddus – ac yn lle

hynny, dylid ei integreiddio â’r prosesau presennol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Er bod Ffigur 3 [yn y ddogfen ymgynghori sy’n amlinellu’r dulliau arfaethedig o gynllunio Pontio Teg mewn gwahanol gyd-destunau] yn categoreiddio’n fras y gwahanol fathau o bontio, byddai’n dod yn fyw gyda rhai enghreifftiau ac/neu astudiaethau achos. Mae'n bwysig cydnabod a chynnwys cyfeiriad penodol at y newidiadau system sydd eu hangen i gyflawni pontio teg llawn. […]’ (Ymatebydd sefydliadol)

## 4.5 Adran Fframwaith: Rhan 2 – Adeiladu ein Sylfaen Dystiolaeth

4.5.1 Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys un cwestiwn, yn canolbwyntio ar y lensys arfaethedig[15] o ble y gellir archwilio canlyniadau economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pontio teg.

### Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ynglŷn â’r lensys arfaethedig i archwilio’r effeithiau a’r cyfleoedd economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a fydd yn deillio o’r pontio?

4.5.2 Ymatebodd 71 o bobl i’r cwestiwn hwn, gyda 35 yn ymatebwyr unigol a 36 yn ymatebwyr sefydliadol

**Angen i’r lensys arfaethedig gael ffocws cryfach ar feysydd penodol**

4.5.3 Y thema fwyaf cyffredin oedd cytundeb cyffredinol gyda'r lensys arfaethedig ond eisiau gweld mwy o ffocws ar feysydd penodol. Cadwraeth natur oedd y maes a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr fel maes nad oeddent yn credu oedd yn cael ei ystyried yn ddigon trylwyr yn y lensys arfaethedig. Roedd unigolion ac ymatebwyr fel ei gilydd yn gryf o blaid lens benodol i ardal, gan bwysleisio pwysigrwydd asesu effaith y pontio ar ecosystemau a natur. Roedd mwyafrif y sefydliadau a gododd y maes ffocws hwn yn cynrychioli materion amgylcheddol. Yr ail faes y dadleuodd rhai ymatebwyr o blaid rhoi mwy o bwyslais arno yn y lensys arfaethedig oedd tai, yn enwedig fforddiadwyedd tai wedi'u hinswleiddio'n dda a darpariaeth tai cymdeithasol o ansawdd uchel. Yn olaf, tynnodd ymatebwyr eraill sylw at yr angen am drafnidiaeth gyhoeddus hygyrch a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

[15] Amlinellir y lensys arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori ac maent yn cynnwys deall yr effeithiau a’r cyfleoedd dros amser (i) ar draws Sectorau Allyriadau, (ii) ar Fusnes a Chyflogaeth, (iii) ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas, a (iv) mewn gwahanol rannau o Gymru.

> 'Mae'r lensys arfaethedig i gasglu tystiolaeth yn ymddangos yn briodol ond byddai dadansoddiad o'r effeithiau a'r cyfleoedd yn elwa petai'r "amgylchedd naturiol" yn cael ei restru fel un o'r lensys penodol ar gyfer adeiladu tystiolaeth, yn hytrach na'i fod wedi ei gynnwys o dan "sectorau allyriadau". Er bod "amaethyddiaeth a defnydd tir" wedi'u rhestru o dan sectorau allyriadau, dim ond rhan o'r amgylchedd naturiol y mae yn ei gynnwys, a bydd angen tystiolaeth iddynt. Nid yw'r dull hwn yn rhoi lefel briodol o bwyslais ar ecosystemau a natur, a sut y byddant yn effeithio ar bontio teg. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Cytundeb cyffredinol gyda'r lensys arfaethedig**

4.5.4 Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd cytundeb cyffredinol gyda'r lensys arfaethedig. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion a gododd y thema hon gan ymatebwyr sefydliadol. Mynegwyd eu cytundeb cyffredinol â'r lensys arfaethedig a dadleuwyd bod y lensys yn cwmpasu'r prif feysydd y mae'r pontio yn effeithio arnynt. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu cynnwys y lens ofodol yn benodol; pwysleisiwyd fod y cyfnod pontio yn debygol o gael effeithiau gwahanol ar wahanol ardaloedd o Gymru a phwysleisiwyd na ddylai camgymeriadau a wnaed yn y gorffennol gael eu hailadrodd. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Mae'r lensys arfaethedig a amlinellwyd yn ddefnyddiol ac mae'r [sefydliad] yn croesawu'n arbennig y ffaith bod lens ofodol wedi'i chynnwys i asesu'r manteision a'r effeithiau ar draws gwahanol rannau o Gymru. Fel y gwyddom, daeth y chwyldro diwydiannol blaenorol â chyfleoedd cyflogaeth ac effeithiau negyddol fel ei gilydd i'r ardaloedd glo a llechi, a oedd wedi'u crynhoi mewn mannau penodol ar draws Cymru. Erys lefel sylweddol o amddifadedd a thlodi o fewn llawer o'r cymunedau hyn, ac mae'n hanfodol felly bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys lens ofodol i ystyried sut i liniaru'r effeithiau negyddol posibl tra hefyd yn sicrhau'r buddion cadarnhaol mwyaf posibl a allai ddigwydd o fewn cymunedau o'r fath. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Sicrhau cydraddoldeb i grwpiau a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan y pontio**

4.5.5 Y drydedd thema a drafodwyd amlaf oedd sicrhau nad oedd yr anghydraddoldebau presennol yn gwaethygu. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn adran 4.2.

**Pwysigrwydd y lens Busnes a Chyflogaeth**

4.5.6 Y bedwaredd thema amlycaf oedd ymatebwyr yn trafod lens 'Busnes a Chyflogaeth'. Aeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon i'r afael â'r pwnc creu swyddi, gan gynnwys y potensial ar gyfer swyddi newydd ac eisiau mwy o fanylion am ble y bydd y swyddi hyn yn cael eu creu. Yn gysylltiedig â hynny, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai cyfleoedd swyddi newydd yn bennaf ar gyfer gweithwyr STEM sgil-uchel, a fyddai'n eithrio grŵp mawr o bobl. Amlygodd ymatebion eraill o fewn y thema hon bwysigrwydd buddsoddi mewn datblygiad sgiliau ac addysg angenrheidiol yn gynnar i sicrhau bod y gweithlu'n barod ar gyfer y cyfnod pontio a bod pawb yn gallu elwa ar gyfleoedd newydd. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Bydd uwchsgilio yn hanfodol i sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a all godi o'r pontio i sero net. Ymhellach, rhaid dechrau addysg sgiliau gwyrdd yn yr ysgol er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Er mwyn cyflawni pontio teg, bydd yn hanfodol sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn agored i bawb, a bod y gweithlu wedi'i baratoi â'r sgiliau priodol, ni waeth o ble y maent yn dod.' (Ymatebydd sefydliadol)

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol**

4.5.7 Y bumed thema gyffredin oedd pwysigrwydd cyd-gynhyrchu'r Fframwaith gyda'r holl randdeiliaid perthnasol. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn adran 4.2.

## 4.6 Adran Fframwaith Rhan 3 – Gweithio gyda Rhanddeiliaid a Chydgysylltu ein Hymateb ar y Cyd

4.6.1 Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys dau gwestiwn, y cyntaf yn canolbwyntio ar rolau a chyfrifoldebau arfaethedig y Fframwaith ar gyfer sicrhau pontio teg, a'r ail gwestiwn yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gynnwys pobl a chymunedau Cymru.

### Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ynglŷn â'r arweiniad, y cydweithio, a'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer cyflenwi Pontio Teg?

4.6.2 Ymatebodd 72 o bobl i'r cwestiwn hwn, gyda 34 yn ymatebwyr unigol a 38 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol**

4.6.3 Y thema a godwyd amlaf oedd pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol yn y prosesau o gynllunio a chyflenwi pontio teg. Er bod hon yn

thema gyffredinol, sy'n cael ei thrafod ymhellach yn adran 4.2, roedd elfennau unigryw mewn cyfraniadau i'r cwestiwn hwn, a fydd yn cael eu trafod yma.

4.6.4 Roedd yr ymatebwyr sefydliadol yn tueddu i godi pwysigrwydd naill ai sefydlu pontio teg i bartneriaethau presennol neu greu partneriaethau newydd, ffurfiol i roi pontio teg ar waith yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr hyn yn nodweddiadol yn croesawu dull arfaethedig 'Tîm Cymru' i hwyluso gweithio mewn partneriaeth tuag at bontio teg[16]. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn y dylid ymgorffori'r broses o bontio teg i waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, tra'r awgrymodd eraill bartneriaethau ehangach – gan gynnwys busnesau, y byd academaidd, ac undebau llafur. At hynny, cododd ymatebwyr eraill bwysigrwydd y bartneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru a rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Mae'r dull arfaethedig o arwain a chydweithio rhwng llywodraethau, cynrychiolwyr diwydiant a busnes, sefydliadau academaidd a chymunedau yn hollbwysig. Fel y nodwyd, mae llawer o'r ysgogiadau mwyaf pwerus i sicrhau pontio teg wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU. Mae pwerau sy'n ymwneud â lles a masnach, ochr yn ochr ag ysgogwyr economaidd mawr, yn nwylo Llywodraeth y DU. Felly mae'n bwysig ein bod yn gweld gwell cysylltiadau rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru [a] Llywodraeth y DU.' (Ymatebydd sefydliadol)

**Croesawu'r arweinyddiaeth, y cydweithio a'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer cyflenwi Pontio Teg**

4.6.5 Y gydradd ail thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn croesawu'r cynigion ar y cyfan. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion a gododd y thema hon gan ymatebwyr sefydliadol. Roeddent yn aml yn croesawu'r ffocws ar gyfranogiad dinasyddion, gan gynnwys trwy gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu'r Fframwaith Pontio Teg a'i weithrediad. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn cytuno mai Llywodraeth Cymru ddylai fod â'r rôl arweiniol mewn arwain a chynnull cyfrifoldebau wrth sicrhau cyfnod pontio teg yng Nghymru.

> 'Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn brif yrrwr cyflenwi Pontio Teg gan y bydd yn caniatáu i Bontio Teg gael ei

[16] Dull 'Tîm Cymru' yw pan fo Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, busnesau, a chymunedau ledled Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin yr argyfwng hinsawdd a natur. Mwy o wybodaeth ar gael yma: Llywodraeth Cymru, 'Dull Ymgysylltu o amgylch Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru 2022-26', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dull-ymgysylltu-o-amgylch-y-newid-yn-yr-hinsawdd-2022-26 (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

integreiddio’n fwy llyfn i bolisïau eraill atal newid yn yr hinsawdd.’ (Ymatebydd sefydliadol)

**Awgrymiadau i addasu'r cyfrifoldebau arfaethedig**

4.6.6 Y gydradd ail thema gyffredin arall oedd awgrymiadau i addasu'r arweinyddiaeth, y cydweithio a'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer pontio teg. Daeth y rhan fwyaf o’r ymatebion i’r thema hon gan ymatebwyr sefydliadol. Galwodd rhai ohonynt am rymuso Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’u defnyddio fel rhan o bontio teg. Galwodd eraill am gomisiwn annibynnol gyda’r pŵer i ddarparu argymhellion ymarferol ar gyfer pontio teg, fel yn yr Alban. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn croesawu’r cysyniad o Dîm Cymru, ond yn galw am fwy o eglurder ynghylch y cyrff a’r strwythurau a fyddai’n gwireddu’r cydweithio hwn.

> ‘Mae absenoldeb fforwm neu lwyfan canolog yng Nghymru i ddod â rhanddeiliaid amrywiol o sectorau amrywiol at ei gilydd yn her sylweddol i gamau cydgysylltiedig ar yr argyfwng hinsawdd a phontio teg. […] Gallai Tîm Cymru fod yn gyfle gwych i sicrhau cydgysylltu ymhlith rhanddeiliaid amrywiol a chyrff cyhoeddus.’ (Ymatebydd sefydliadol)

4.6.7 Galwodd ymatebwyr eraill a gododd y thema hon am fwy o ffocws ar addysg yn yr arweinyddiaeth, cydweithio, a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer pontio teg. Roedd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn ymwybodol o’r newidiadau strwythurol ac ymddygiadol sydd eu hangen i gyrraedd sero net a bod ganddynt y sgiliau a’r hyfforddiant i weithio mewn sectorau perthnasol, megis ynni adnewyddadwy.

> ‘[…] Dylai'r fframwaith fod yn glir o ran addysg, gan fod hyn yn disgyn rhwng Llywodraeth Cymru ac Academia ac addysgwyr. Mae’n hanfodol datblygu ac uwchsgilio pobl gyda’r sgiliau sydd eu hangen arnynt i sicrhau y ceir pontio teg. […]’ (Ymatebydd sefydliadol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.6.8 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd anghytundeb cyffredinol â’r cynnig i bontio i sero net. Daeth y rhan fwyaf o’r ymatebion hyn gan unigolion. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2.

### Cwestiwn 8: Yn eich tyb chi, sut gellir mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i gynnwys pobl a chymunedau Cymru yn y gwaith o gynllunio ar gyfer pontio teg?

4.6.9 Ymatebodd 72 o bobl i'r cwestiwn hwn gyda 34 yn ymatebwyr unigol a 38 yn ymatebwyr sefydliadol.

4.6.10 Cododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn themâu a drafodwyd yn y thema drosfwaol o gynnwys ac ymgysylltu'r holl randdeiliaid, a drafodir yn adran 4.2. Fodd bynnag, gan fod y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl a chymunedau'n benodol, bydd ymatebion sy'n codi'r thema hon yn cael eu trafod yn fanwl ar gyfer y cwestiwn hwn.

**Awgrymiadau i wella ymgysylltu â phobl a chymunedau**

4.6.11 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd awgrymiadau ar y ffordd orau i ymgysylltu â phobl a chymunedau wrth gynllunio ar gyfer pontio teg. Gwnaed yr awgrymiadau hyn gan amlaf gan yr ymatebwyr sefydliadol. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd i Lywodraeth Cymru wneud y defnydd gorau o sefydliadau presennol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfranogiad cymunedol wrth gynllunio, gweithredu, a monitro pontio teg. Mae'r sefydliadau a enwir yn yr ymatebion hyn yn cynnwys undebau llafur, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, awdurdodau lleol, busnesau a chyrff cynrychioliadol busnesau, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol fel Sefydliad y Merched a'r Ymddiriedolaeth Natur, a digwyddiadau cenedlaethol fel yr Eisteddfod a Sioe Frenhinol Cymru. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Mae rôl i CJCs[17]/ Dinas-ranbarthau, Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned, Byrddau Gwasanaethau'r Sector Cyhoeddus i helpu i ysgogi cyfathrebu â chymunedau a'r cyhoedd. [...]' (Ymatebydd sefydliadol)

4.6.12 Yr ail awgrym mwyaf cyffredin oedd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio dulliau cyfranogol ffurfiol i gynnwys pobl a chymunedau wrth gynllunio ar gyfer Pontio Teg. O'r rhain, galwodd rhai ymatebwyr am i gynulliadau dinasyddion gael eu defnyddio wrth gynllunio ar gyfer pontio teg, tra bod eraill yn galw am gyfarfodydd cyhoeddus ar draws cymunedau Cymru. Waeth beth fo'r math o ddulliau cyfranogol, roedd cytundeb eang y dylai ymgysylltu ganolbwyntio ar grwpiau na chlywir yn aml yn y trafodaethau hyn. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

[17] Cydbwyllgorau Corfforaethol, fel y'u sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/contents (Cyrchwyd 16 Mai 2024).

> '[…] Byddem yn annog Llywodraeth Cymru ac eraill i ystyried cydweithio â sefydliadau ac unigolion yr ymddiriedir ynddynt eisoes i helpu i frocera a meithrin perthnasoedd, yn hytrach na cheisio cynnwys pobl nad ydynt wedi ceisio cysylltu â nhw o'r blaen. Bydd hefyd angen nifer o ddulliau o gynnwys pobl a chymunedau. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn mynd y tu hwnt i'r isafswm statudol a byddai'n cael ei gyd-gynhyrchu gan amrywiaeth o actorion. Rydym yn cydnabod bod y defnydd o gynulliadau dinasyddion a wnaed yn flaenorol ym Mlaenau Gwent wedi bod yn arbennig o lwyddiannus ac efallai ei fod yn fodel i geisio ei ailadrodd. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

4.6.13 Roedd awgrymiadau eraill a gynigiwyd sawl gwaith yn cynnwys i Lywodraeth Cymru (i) sicrhau bod y dull a ddefnyddir i hyrwyddo Pontio Teg yn cyd-fynd â strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Gweithredu ar Newid Hinsawdd Cymru; (ii) cynnal ymgyrch fawr i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl a chymunedau Cymru o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni pontio teg; (iii) buddsoddi mewn cynlluniau ynni sy'n eiddo i'r gymuned a mentrau cymdeithasol perthnasol eraill i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r newid yn yr hinsawdd tra'n cynyddu ffyniant yng nghymunedau Cymru.

**Pwysigrwydd ymgysylltu â phobl a chymunedau Cymru**

4.6.14 Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr a bwysleisiodd fod ymgysylltu â phobl a chymunedau Cymru yn bwysig. Roeddent yn dadlau'n aml mai ymgysylltu yw'r ffordd orau o sicrhau bod cymunedau a busnesau yng Nghymru yn gallu cyfrannu, ac elwa o bontio teg. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Mae ymgysylltu yn allweddol i lwyddiant. Mae angen i hyn fod yn bellgyrhaeddol ar draws sefydliadau a dylid annog cyfranogiad busnesau. Mae angen i'r rhai sy'n ymgysylltu weld mantais glir o wneud hynny a chael eu gwneud drwy ddulliau gwahanol i sicrhau na chaiff rhai sectorau eu gadael ar ôl. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

4.6.15 Roedd ymatebwyr eraill yn croesawu'n arbennig y pwyslais ar gynnwys unigolion a chymunedau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pontio a galwyd am i hyn barhau mewn gwaith yn y dyfodol. Mantais ychwanegol ymgysylltu â phobl a chymunedau Cymru a nodwyd gan rai ymatebwyr oedd y gall ymgysylltiad annog unigolion yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gynyddu eu sgiliau mewn pynciau amgylcheddol a meysydd eraill sy'n berthnasol i bontio teg. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Mae gwella sicrwydd cyflenwad tanwydd gwresogi neu drafnidiaeth yn debygol o ddibynnu ar ailsgilio amrywiol beirianwyr/llafurwyr medrus i weithredu a chynnal technolegau newydd. Bydd ymgysylltu'n eang â'r cyfleoedd a denu pobl i addysg bellach i ddysgu'r sgiliau hyn yn agwedd hanfodol ar gynllunio i'r dyfodol er mwyn sicrhau, wrth i arloesi a buddsoddi gael eu cyflenwi, bod cyflenwad o bobl gymwys ar gael i'w gweithredu a'u cynnal. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.6.16 Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd y thema drosfwaol o ymatebwyr yn mynegi eu anghytundeb â chynigion ar gyfer pontio i sero net, a drafodir yn fanylach yn adran 4.2. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion a gododd y thema hon gan ymatebwyr unigol.

**Grwpiau a chymunedau penodol y dylid eu cynnwys**

4.6.17 Y bedwaredd thema fwyaf cyffredin oedd rhestru grwpiau penodol y dylid ymgysylltu â nhw. Mae enghreifftiau a enwyd yn cynnwys cymunedau gwledig, y sector amaethyddol, aelodau o leiafrifoedd ethnig a'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y pontio. Galwodd rhai o'r ymatebwyr a gododd y thema hon am fentrau ymgysylltu i gyrraedd unigolion nad ydynt ar-lein, yn ogystal â'r rhai sydd ar-lein. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Os na chaiff gwybodaeth am fentrau sero net fel ôl-ffitiadau tai, gosodiadau pwmp gwres, prentisiaethau ac ati, ei chyfleu drwy amrywiaeth o fformatau digidol a fformatau nad ydynt yn ddigidol, ac mewn ffordd sy'n diwallu anghenion mynediad a chyfathrebu, bydd pobl yn cael eu hallgáu […]'

## 4.7 Adran Fframwaith: Rhan 4 – Pecyn Cymorth

4.7.1 Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys un cwestiwn, a oedd yn gofyn am farn ymatebwyr ar y pecyn cymorth a amlinellwyd yn y Fframwaith Pontio Teg.

### Cwestiwn 9: Beth yw eich barn ynglŷn â'r pecyn cymorth arfaethedig?

4.7.2 Ymatebodd 56 o bobl i'r cwestiwn hwn, gyda 26 yn ymatebwyr unigol a 30 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Awgrymiadau ar sut i wella'r pecyn cymorth**

4.7.3 Y thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn gwneud awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r pecyn cymorth. Gwnaed y rhan fwyaf o'r awgrymiadau gan yr ymatebwyr

sefydliadol. Yr argymhelliad mwyaf cyffredin oedd y dylid symleiddio'r pecyn cymorth a'i wneud yn fwy hygyrch. Roedd yr ymatebwyr hyn o blaid gwahanol fformatau o’r pecyn cymorth, megis fersiwn all-lein neu fersiwn hawdd ei darllen. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Er mwyn gwneud unrhyw becyn cymorth yn ddefnyddiol ac yn hygyrch, bydd angen iddo fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau - yn ddigidol a chopi caled, gyda chymorth ar gael sut i'w ddefnyddio. Byddem yn rhagdybio y byddai lleiafswm yr holl ofynion statudol yn cael eu cyflawni o ran iaith, a darpariaeth hawdd ei darllen. Fodd bynnag, rydym yn ystyried mai creu ystod o becyn(au) cymorth sydd fwyaf priodol ac yn debygol o arwain at newid ymddygiad cadarnhaol gan gyfrannu at y pontio teg.’ (Ymatebydd sefydliadol)

4.7.4 Yr ail awgrym mwyaf cyffredin oedd cynnwys datganiadau gweledigaeth a nodau mwy penodol a manwl i egluro canlyniadau disgwyliedig y pecyn cymorth. Yn benodol, galwodd rhai ymatebwyr am gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer gorau i gymell actorion a gwneud y pecyn cymorth yn fwy ymarferol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘Mae'n ddefnyddiol gweld y crynodebau yn y pecyn cymorth ategol. Efallai y gellid cynnwys ychydig mwy o fanylion ym mhob nod. Gallech gyfeirio at becynnau cymorth eraill a fyddai'n cyfrannu at bob nod. Hefyd rhowch astudiaethau achos ymarferol o ba gamau sydd eisoes yn digwydd naill ai yma yng Nghymru neu dramor, a all ysbrydoli eraill. […]’ (Ymatebydd sefydliadol)

4.7.5 Yr awgrym olaf, a wnaed gan un ymatebydd, oedd y dylai’r pecyn cymorth gynnwys trosolwg o’r cymorth a’r cyngor sydd ar gael i weithredu’r pecyn cymorth, megis rhestr o adnoddau.

**Cymeradwyo’r pecyn cymorth**

4.7.6 Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn croesawu’r pecyn cymorth neu ei egwyddorion, ar y cyfan. Mynegodd grŵp mawr o’r ymatebwyr sefydliadol eu cymeradwyaeth gyffredinol, gan alw’r pecyn cymorth yn ddefnyddiol a chynorthwyol. Yn fwy penodol, roedd yr ymatebwyr hyn yn gweld y pecyn cymorth fel sylfaen i sefydliadau greu eu cynlluniau gweithredu eu hunain a dadleuwyd y gallai eu harwain yn eu gwaith. Dwy elfen arall yr oedd ymatebwyr a gododd y thema hon yn eu hoffi am

y pecyn cymorth oedd rôl y DLICD a'r ystyriaeth o ystod o grwpiau (ar y cyrion). Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[Mae'r sefydliad] yn croesawu datblygiad y Pecyn Cymorth Pontio Teg fel adnodd ymarferol i gefnogi'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r pontio i economi carbon isel yng Nghymru yn effeithiol. Mae ffocws y pecyn cymorth ar integreiddio cynllunio pontio i'r broses gwneud penderfyniadau, asesu effeithiau a chyfleoedd, a rhoi rhanddeiliaid ar waith yn hollbwysig er mwyn sicrhau dull cydweithredol a gwybodus.' (Ymatebydd sefydliadol)

**Beirniadu elfennau penodol o'r pecyn cymorth**

4.7.7 Y drydedd thema a godwyd amlaf oedd ymatebwyr yn lleisio eu pryderon am elfennau penodol o'r pecyn cymorth, yn bennaf ei hygyrchedd a'i angen. Dadleuodd ymatebwyr yn y grŵp hwn fod y pecyn cymorth yn rhy gymhleth i gynulleidfa an-arbenigol. Pryder arall a godwyd oedd bod y pecyn cymorth yn dibynnu ar wybodaeth bresennol am bolisïau eraill Llywodraeth Cymru, megis y DLICD. Roedd set fach o ymatebwyr o fewn y thema hon yn amau a oedd angen y pecyn cymorth ar gyfer busnesau, gan nodi fod ei ffocws yn rhy eang ar hyn o bryd i fod yn ddefnyddiol, ac y byddai pecynnau cymorth sector-benodol yn fwy defnyddiol na phecyn cymorth cyffredinol. Roedd gan rai ymatebwyr bryderon hefyd am y costau ychwanegol y byddai gweithredu'r pecyn cymorth yn eu hachosi i fusnesau. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Mae'r pecyn cymorth arfaethedig yn gymhleth ac yn eithaf anhygyrch i gynulleidfaoedd nad ydynt yn arbenigwyr. Os yw pecyn cymorth am gael ei ddefnyddio, dylid ei symleiddio'n ddramatig, gan ddileu jargon ac iaith arbenigol (oni bai bod geirfa ychwanegol am gael ei hychwanegu). […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.7.8 Y bedwaredd thema fwyaf cyffredin oedd y thema gyffredinol o ymatebwyr yn mynegi eu hanghytundeb â phontio i sero net, a drafodir yn fanylach yn adran 4.2. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr ar gyfer y cwestiwn hwn.

## 4.8 Adran Fframwaith: Cwestiwn Iaith Gymraeg a sylwadau agored

4.8.1 Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys tri chwestiwn. Roedd y ddau gwestiwn cyntaf yn canolbwyntio ar effaith bosibl y Fframwaith ar y Gymraeg.

Gadawodd y cwestiwn olaf le i sôn am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt wedi cael sylw penodol mewn cwestiynau blaenorol.

## Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith Pontio Teg ar y Gymraeg?

4.8.2 Ymatebodd 51 o bobl i'r cwestiwn hwn gyda 31 yn ymatebwyr unigol a 20 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Mae'n debygol y bydd y Fframwaith yn cefnogi'r iaith Gymraeg**

4.8.3 Y thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd bod Fframwaith Pontio Teg yn debygol o gefnogi'r Gymraeg. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon ffyrdd penodol y gallai pontio teg gryfhau'r Gymraeg, megis drwy gefnogi'r sector amaethyddol drwy'r heriau a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai pontio teg yn creu cyfleoedd cyflogaeth yn y sector ynni adnewyddadwy, yn bennaf mewn cymunedau gwledig, Cymraeg eu hiaith, ac y byddai hyn yn creu'r amodau economaidd-gymdeithasol i siaradwyr Cymraeg aros yn y cymunedau lle cawsant eu magu. Nodwyd y byddai angen i Lywodraeth Cymru gynllunio ar gyfer hyn drwy sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg ifanc y sgiliau angenrheidiol i weithio yn y sectorau ynni adnewyddadwy – a bod y cyfleoedd addysg medrus hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Mae'r sector ynni adnewyddadwy yn cynnig swyddi medrus a chyflog uchel sy'n rhoi cymhelliant i ieuenctid Cymru aros a gweithio yng Nghymru. Bydd twf y sector hwn yng Nghymru yn helpu i gynnal y cymunedau lleol sy'n gwneud i'r iaith ffynnu. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Nid yw'r Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad nac i bontio teg**

4.8.4 Yr ail thema a godwyd amlaf oedd nad yw'r Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad nac i bontio teg. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Daeth yr holl ymatebion hyn gan ymatebwyr unigol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod yr adnoddau sy'n cael eu gwario ar y Gymraeg yn ormodol ac y gellid blaenoriaethu'r adnoddau yn wahanol. Honnodd ymatebwyr eraill nad yw'r Gymraeg yn berthnasol i newid yn yr hinsawdd. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Rwy'n llwyr gefnogi lledaeniad a defnydd o'r Gymraeg ond rwy'n cwestiynu'r defnydd gormodol [o] amser a chost o ddefnyddio'r gweithwyr cyhoeddus hynny sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn cyd-destun o frys.' (Ymatebydd unigol)

**Cynigion i gefnogi'r Gymraeg yn y Fframwaith**

4.8.5 Y drydedd thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd cynigion i gryfhau cefnogaeth Fframwaith Pontio Teg i'r Gymraeg. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Roedd y cynigion yn cynnwys sicrhau bod yr holl gyfathrebu yn ddwyieithog a bod digwyddiadau Cymraeg yn cael eu cynnal gyda'r cyhoedd – drwy sianeli digidol ac wyneb yn wyneb – i godi ymwybyddiaeth o bontio teg. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Eisteddfod a'r Sioe Frenhinol, drwy sefydliadau fel yr Urdd, a thrwy hybu trafodaeth am bontio teg drwy ymgysylltu ag S4C a BBC Radio Cymru. Roedd ymatebwyr eraill yn canolbwyntio ar gryfhau sylfaen economaidd-gymdeithasol y Gymraeg drwy sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth – yn enwedig yn y sectorau amaethyddol ac ynni adnewyddadwy – ar gael i siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Rhaid i unrhyw uwchsgilio neu sgiliau newydd sydd eu hangen i dyfu'r gweithlu yng Nghymru gael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg, felly mae'n allweddol ein bod yn dechrau datblygu'r sgiliau dwyieithog hyn nawr er mwyn datblygu llif o weithwyr o fewn y sector sero net sy'n gallu nid yn unig gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ond a all hefyd hyfforddi ac uwchsgilio trwy gyfrwng y Gymraeg. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Nid yw'r Fframwaith yn debygol o gael unrhyw effaith ar y Gymraeg**

4.8.6 Y bedwaredd thema amlaf oedd nad yw Fframwaith Pontio Teg yn debygol o gael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Nid ymhelaethodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon pam nad yw'r Fframwaith yn debygol o gael unrhyw effaith – boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol – ar y Gymraeg. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr y byddai aliniad â Safonau'r Gymraeg yn sicrhau nad yw pontio teg yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'Gan gymryd bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg, ni welwn unrhyw effeithiau, boed yn gadarnhaol na'n negyddol, ar y defnydd o'r Gymraeg. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Mae pontio yn debygol o danseilio'r Gymraeg**

4.8.7 Y bumed thema amlaf oedd bod y newid cyffredinol i sero net yn debygol o danseilio'r Gymraeg. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Honnodd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai'r newid i sero net yn arwain at golli swyddi yn y sector

amaethyddol, gan danseilio'r Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Dadleuodd ymatebwyr eraill yn ehangach y bydd y mesurau sydd wrth wraidd pontio teg yn golygu y bydd siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael Cymru. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] bydd pobl ifanc Cymru yn ymadael, fel y bydd y ffermwyr, gan arwain yn anochel at golli'r Gymraeg.' (Ymatebydd sefydliadol)

### Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y Fframwaith Pontio Teg arfaethedig er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu leihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

4.8.8 Ymatebodd 36 o bobl i'w cwestiwn hwn, gyda 22 yn ymatebwyr unigol a 14 yn ymatebwyr sefydliadol. Sylwch fod rhai ymatebwyr eisoes wedi trafod y cwestiwn hwn yn eu hymateb i Gwestiwn 10 ac o ystyried y nifer fach o ymatebion dim ond tair thema a ddaeth i'r amlwg.

**Cynigion i gryfhau'r iaith Gymraeg**

4.8.9 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd cynigion ehangach i gryfhau'r Gymraeg drwy bolisïau Llywodraeth Cymru. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Roedd y thema hon yn cael ei thrafod yn bennaf gan ymatebwyr sefydliadol. Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn ar gryfhau'r Gymraeg drwy bolisïau economaidd, naill ai drwy gynyddu nifer y swyddi mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith neu drwy annog pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Roedd atebion eraill yn galw am ddeddfwriaeth i ddiogelu'r Gymraeg, megis mwy o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac amddiffyniadau cyfreithiol cryfach i'r Gymraeg o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn olaf, dadleuodd ymatebwyr, er mwyn cryfhau'r Gymraeg, y dylid cyfeirio ati'n amlach drwy'r Fframwaith, yn hytrach na dim ond yn Nod Llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.8.10 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd anghytundeb cyffredinol â'r cynnig i bontio i sero net. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan unigolion. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr ar gyfer y cwestiwn hwn.

**Anghytundeb gyda chefnogi’r iaith Gymraeg**

4.8.11 Y drydedd thema amlaf oedd anghytundeb ynglŷn â chefnogi'r Gymraeg. Roedd hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar gostau ariannol canfyddedig cefnogi’r iaith a gwahaniaethu canfyddedig yn erbyn y di-Gymraeg. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr.

### Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.

4.8.12 Ymatebodd 44 o bobl i’r cwestiwn hwn gyda 27 yn ymatebwyr unigol a 17 yn ymatebwyr sefydliadol.

**Anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net**

4.8.13 Y thema fwyaf cyffredin yn y cwestiwn sylw agored hwn oedd ymatebwyr yn ailadrodd anghytundeb cyffredinol â'r syniad o bontio i sero net. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan ymatebwyr unigol. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn yr adran 4.2.

**Angen i’r Fframwaith gael ffocws cryfach ar feysydd penodol**

4.8.14 Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r Fframwaith Pontio Teg ond a oedd am weld ffocws cryfach ar feysydd yr oeddent yn eu hystyried yn bwysig iawn. Crybwyllir ystod eang o feysydd ffocws megis trafnidiaeth, tai ac addysg. Yn ôl yr ymatebwyr, dylai cadwraeth natur gael mwy o sylw yn y Fframwaith. Cafodd y maes hwn ei enwi yn bennaf gan ymatebwyr unigol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘[…] Bydd pontio teg i gymunedau gwledig yn adlewyrchu dibyniaeth cymaint o bobl ar y dirwedd, y dreftadaeth adeiledig a bioamrywiaeth cefn gwlad Cymru. Mae'r rhain yn cyfrannu at yr economi twristiaeth wledig, a llesiant trigolion gwledig, sydd dan anfantais mewn llawer o ffyrdd economaidd-gymdeithasol. Mae angen inni weld bod diogelu’r asedau hyn yn cael ei ystyried yn briodol wrth bontio i Sero Net drwy’r system gynllunio. […]’ (Ymatebydd unigol)

**Angen cefnogaeth i sicrhau pontio teg**

4.8.15 Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth (ariannol) yn ystod y cyfnod pontio, yn enwedig ar gyfer grwpiau a allai gael eu heffeithio’n andwyol gan y pontio. Sylwch y codwyd y

thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Er bod cysylltiad cryf rhwng y thema hon a'r thema gyffredinol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gynhyrchir gan y pontio (a drafodwyd yn adran 4.2), pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gefnogi'r grwpiau hyn er mwyn esmwytho effeithiau andwyol y pontio arnynt. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> '[…] Mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yn hollbwysig ar gyfer cyflawni pontio teg a meithrin datblygiadau cynhwysol a chynaliadwy yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn i liniaru eu heffeithiau andwyol ar gymdeithas a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae datblygu strategaeth a chynllun gweithredu gwrthdlodi cynhwysfawr a phellgyrhaeddol ar fyrder yn hanfodol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb, gwella mynediad at gyfleoedd, a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Dylai'r strategaeth hon gynnwys mesurau wedi'u targedu i gefnogi poblogaethau ymylol a bregus, megis buddsoddi mewn addysg, gofal iechyd, tai fforddiadwy, a rhaglenni hyfforddiant swyddi. […]' (Ymatebydd sefydliadol)

**Pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol**

4.8.16 Y bedwaredd thema fwyaf cyffredin oedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y cyhoedd yng Nghymru yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau cydgynhyrchu gwirioneddol o unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â phontio i sero net. Mae hon yn thema gyffredinol a drafodir yn fanwl yn adran 4.2. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr ar gyfer y cwestiwn hwn.

**Awgrymiadau i wella'r Fframwaith Pontio Teg**

4.8.17 Daeth y ddwy thema gyffredin olaf i fyny ar raddfa debyg. Awgrymodd rhai ymatebwyr newidiadau penodol i'r Fframwaith. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Yr argymhelliad a grybwyllwyd amlaf oedd ychwanegu mwy o enghreifftiau a chanllawiau i'r Fframwaith i'w wneud yn haws i'w weithredu. Yr enghreifftiau eraill a gafwyd gan ddau ymatebydd oedd gwneud y Fframwaith yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach drwy ddefnyddio iaith symlach, a bod angen i'r cynllunio ar gyfer pontio teg fod yn gynaliadwy ac yn seiliedig ar feddylfryd hirdymor. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> 'I gloi, rydym yn awgrymu y gallai'r Fframwaith gael ei eirio'n llawer mwy cryno ynghyd ag enghreifftiau pellach i'w wneud yn fwy bywiog. Rydym

> yn awgrymu efallai nad yw’r Pecyn Cymorth generig yn werth ei ddatblygu ymhellach, gydag ymdrechion yn canolbwyntio ar ddarparu fforwm cydweithredol i sefydliadau a sectorau ddysgu oddi wrth ei gilydd, ochr yn ochr â chanolfan ddigidol a all ddarparu storfa ganolog o dystiolaeth ac adnoddau, gan gynnwys rhestrau gwirio o’r gweithredoedd. Awgrymir y byddai hyn yn darparu llwybr mwy effeithiol i wreiddio ystyriaeth o bontio teg wrth wneud penderfyniadau.’
> (Ymatebydd sefydliadol)

**Cytundeb cyffredinol â’r Fframwaith Pontio Teg**

4.8.18 Yn olaf, nododd rhai ymatebwyr eu bod yn cytuno’n gyffredinol â’r Fframwaith, gan bwysleisio ei bwysigrwydd a’r manteision hirdymor o bontio i sero net, yn enwedig ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Sylwch y codwyd y thema hon gan lai na 10 o ymatebwyr. Galwodd rhai o’r ymatebwyr hyn am bontio mwy sylweddol a chyflym er mwyn sicrhau y gellir cyflawni nodau pontio teg o fewn yr amserlen benodedig. Daeth y rhan fwyaf o’r ymatebion sy’n mynd i’r afael â’r thema hon gan ymatebwyr sefydliadol. Nododd un ymatebydd a gododd y thema hon:

> ‘Mae risgiau’n gysylltiedig â’r pontio, ond mae’r risgiau sy’n gysylltiedig â chynnal 'busnes fel arfer' yn waeth. Bydd peidio â phontio i Sero Net, neu lansio cyfnod pontio aneffeithiol, yn cael effaith ddifrifol ar gymunedau Cymru, gan roi bywoliaeth a chartrefi mewn perygl, a gamblo â llesiant cenedlaethau’r dyfodol.’ (Ymatebydd sefydliadol)

## 4.9 Crynodeb o ymatebion anstrwythuredig

4.9.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o'r naw ymateb a gyflwynwyd drwy e-bost, nad oeddent yn dilyn fformat holiadur yr ymgynghoriad. Cyflwynwyd pob un o'r naw ymateb anstrwythuredig hyn gan sefydliadau, ac ni roddodd yr un ohonynt ganiatâd i ddefnyddio dyfyniadau.

4.9.2 Gan nad yw'r ymatebion ansafonol yn cyfateb yn union i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad, maent wedi'u crynhoi yn yr adran annibynnol hon o'r adroddiad. Cododd mwyafrif yr ymatebwyr a roddodd ymatebion anstrwythuredig themâu tebyg i’r rhai a nodwyd yn yr ymatebion strwythuredig a grynhowyd yn flaenorol. Roedd ymateb anstrwythuredig yn tueddu i gynnwys ffocws ar bwysigrwydd addysg a sicrhau bod

gan weithwyr Cymru 'sgiliau sero net'[18], cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol, a herio anghydraddoldebau presennol.

4.9.3 Mae'r ddwy adran ganlynol yn cyflwyno unrhyw themâu newydd neu wreiddiol a godwyd gan yr ymatebwyr hyn.

**Diwydiannau a sectorau penodol**

4.9.4 Cyflwynwyd mwyafrif yr ymatebion anstrwythuredig gan sefydliadau sy'n cynrychioli diwydiannau penodol, gyda'r ymatebwyr hyn yn pwysleisio y dylid ystyried eu sector wrth baratoi a gweithredu pontio teg.

4.9.5 Codwyd y pwyntiau canlynol gan un sefydliad yr un: (i) pwysigrwydd y sector amaethyddol a'r cymunedau ffermio i gyflenwi pontio teg, gan nodi siom ynghylch y gwrthdaro rhwng yr ymgynghoriad hwn a'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac argymhelliad bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ymhellach â'r sector amaethyddol cyn gwneud penderfyniadau terfynol ar y Fframwaith Pontio Teg; (ii) pwysigrwydd Mecanwaith Addasu Ffiniau Carbon y DU i sicrhau bod diwydiant trwm Cymru yn parhau i fod yn gystadleuol ym marchnad y DU ac nad yw'n cael ei danseilio gan fewnforion carbon-ddwys; (iii) rôl y sectorau creadigol mewn pontio teg; (iv) a'r angen i annog cyllid preifat cystadleuol wrth gefnogi pontio teg, yr honnwyd fyddai'n cynyddu'r cyflymder y gall Cymru gyrraedd targedau sero net tra'n lleihau costau ariannol ac economaidd.

**Argymhellion i addasu'r Fframwaith**

4.9.6 Cynigiodd rhai ymatebwyr argymhellion i addasu rhai elfennau o'r Fframwaith Pontio Teg. Yn yr un modd â rhai ymatebion safonol, roedd llawer o ymatebion anstrwythuredig yn galw am ymgorffori mecanweithiau gorfodi cyfreithiol a pherchnogion camau gweithredu mwy penodol yn y Fframwaith Pontio Teg. Yn ogystal, cododd rhai ymatebwyr bwysigrwydd fframio pontio teg yn fwy cadarnhaol. Mae'r ymatebwyr hyn yn cynnig mwy o bwyslais ar sut i rannu cyfleoedd pontio teg yn ogystal â'r risgiau sydd angen eu hatal a'u lliniaru. Yn olaf, nodwyd yr angen i gysylltu

[18] Llywodraeth Cymru, 'Sgiliau Sero Net, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sgiliau-sero-net (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Fframwaith Pontio Teg â strategaethau amgylcheddol eraill – megis Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar 'Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy'[19] a Datganiadau Ardal CNC[20].

[19] Llywodraeth Cymru, 'Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn', https://www.llyw.cymru/egwyddorion-amgylcheddol-trefniadau-llywodraethu-thargedau-bioamrywiaeth-papur-gwyn (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

[20] Cyfoeth Naturiol Cymru, 'Datganiadau Ardal, ar gael yn: https://naturalresources.wales/areastatements?lang=cy (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

# 5. Canfyddiadau o’r dadansoddiad o’r Sgyrsiau am yr Hinsawdd

## 5.1 Cefndir ac amlinelliad

5.1.1 Ariannwyd y digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ac roeddent yn canolbwyntio ar y thema gyffredinol, ‘Sut mae mynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd mewn ffordd deg?’. Cafodd yr adroddiadau eu cynhyrchu gan drefnwyr digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd i Lywodraeth Cymru. Yna dadansoddodd Alma Economics yr adroddiadau hyn.

5.1.2 Rhoddwyd Pecyn Trefnwyr i drefnwyr digwyddiadau yn cynnwys dau gwestiwn allweddol i arwain trafodaethau, pob un ag awgrymiadau am adrannau o ddiddordeb neu is-gwestiynau. Mae’n rhaid nodi nad oedd llawer o adroddiadau’n canolbwyntio ar yr agwedd ‘tegwch’ o gwestiwn trosfwaol y digwyddiad, ond yn hytrach, defnyddiwyd y cyfle i amlygu ffyrdd cyffredinol o fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd gan gynnwys lleihau allyriadau, lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt, a chyfranogiad mewn penderfyniadau am newid yn yr hinsawdd.

5.1.3 Mae Adran 5.2 yn cyflwyno canfyddiadau’r dadansoddiad thematig ar gyfer yr adroddiadau a ddilynodd ymagwedd strwythuredig i grynhoi’r drafodaeth ar Sgyrsiau am yr Hinsawdd mewn perthynas â chwestiynau allweddol y digwyddiadau, tra bod adran 5.3 yn rhoi trosolwg o’r hyn a drafodwyd mewn adroddiadau na ddilynodd y strwythur hwn.

## 5.2 Ymatebion strwythuredig

### Cwestiwn 1: Sut rydym yn lleihau allyriadau, ei gwneud yn deg i chi a sicrhau lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt?

5.2.1 Mae'r adran hon yn archwilio Cwestiwn 1, lle gofynnwyd i'r trefnwyr ystyried y canlynol gyda'r mynychwyr: sut y gellir lleihau allyriadau tra'n ystyried tegwch a sicrhau lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt? Yn ogystal, rhoddwyd yr awgrymiadau canlynol i hwyluso’r drafodaeth: fforddiadwyedd gwneud cartrefi a chymunedau’n gynnes a chyfforddus, argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus dda neu lwybrau beicio a cherdded yn ardaloedd y cyfranogwyr, a sut y byddai trafnidiaeth yn newid. Roedd awgrymiadau pellach yn cynnwys ystyried sut y bydd diwydiannau a busnesau yn y gymuned yn newid a sut y gallai swyddi a sgiliau edrych yn y dyfodol. Yn olaf, awgrymwyd gofyn iddynt ystyried newidiadau yn eu cymuned a'r effaith ar wahanol bobl a busnesau.

**Atebion lefel cymuned**

5.2.2 Y thema a godwyd amlaf mewn adroddiadau ar gyfer Cwestiwn 1 oedd y farn, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n decach, y dylai Llywodraeth Cymru alluogi a chefnogi atebion ar lefel gymunedol a fyddai'n darparu'n well ar gyfer anghenion cymunedol ac yn ymateb iddynt yn well. Ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol, roedd adroddiadau a gododd y thema hon yn gyffredinol yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y gymuned gyfan yn elwa o gynlluniau ynni adnewyddadwy lleol. Roedd rhai hefyd yn cydnabod effaith gwastraff bwyd ar yr argyfwng hinsawdd, gan amlygu arwyddocâd mentrau cymunedol sydd â'r nod o leihau gwastraff bwyd a darparu prydau am ddim i unigolion ar incwm isel. Yn ogystal, tynnodd ychydig o adroddiadau sylw at ddigwyddiadau cymunedol ar gyfer cyfnewid dillad neu roddion eitemau er budd unigolion ar incwm isel. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Roedd teimlad bod yna ormod o 'godi ofn' a dim digon o negeseuon cadarnhaol am newid a bod prosiectau fel prosiectau ynni cymunedol cyfunol sy'n cefnogi angen ynni lleol yn profi pethau cadarnhaol i'r gymuned, a dylai'r llywodraeth eu cefnogi.'

**Cefnogaeth a chymhellion ariannol**

5.2.3 Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd yr alwad am fwy o gymorth a chymhellion ariannol, gan sicrhau cyfle cyfartal i bob unigolyn gael mynediad at arferion cynaliadwy a'u mabwysiadu. Mynegodd llawer o adroddiadau a oedd yn trafod y thema hon bryderon ynghylch fforddiadwyedd mabwysiadu arferion cynaliadwy, yn enwedig i unigolion a chymunedau incwm isel a allai ei chael yn anodd dyrannu arian tuag at fuddsoddiadau mewn technolegau neu arferion cynaliadwy. Awgrymwyd y dylid darparu mwy o gymorth ariannol ar gyfer uwchraddio ynni-effeithlon mewn cartrefi ynghyd â chostau is ar gyfer cerbydau trydan a thrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyffredinol. At ei gilydd, roedd adroddiadau'n pwysleisio bwysigrwydd gweithredu cymorth ariannol wedi'i dargedu a chymhellion i sicrhau mynediad teg at atebion cynaliadwy, gan annog mabwysiadu eang ar draws pob grŵp demograffig. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Nid oes gan bobl yr arian i wneud dewisiadau prynu ecogyfeillgar, boed yn gynhyrchion glanhau cartrefi neu'n baneli solar. Bydd angen cymell pobl i fynd yn wyrdd – e.e. gostyngiadau yn y dreth gyngor am osod paneli solar, cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchion ecogyfeillgar - i ddod â'r costau i lawr i bobl.'

**Buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth**

5.2.4 Y drydedd thema amlaf mewn adroddiadau oedd yr angen am fwy o fuddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth, gan wella ei hygyrchedd a'i fforddiadwyedd. Roedd adroddiadau a gododd y thema hon yn tanlinellu'r gwahaniaethau mewn mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus rhwng ardaloedd gwledig a threfol, gan alw am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mwy dibynadwy ac aml mewn ardaloedd gwledig. Mynegodd rhai bryderon hefyd am y diffyg llwybrau beicio pwrpasol a materion diogelwch gyda llwybrau beicio presennol yn eu hardal. Y farn a fynegwyd oedd bod rhieni, o ganlyniad, yn dewis cludo eu plant i'r ysgol mewn cerbyd. Roedd galwadau hefyd am fwy o fuddsoddiad mewn seilwaith gwefru cerbydau trydan i gynyddu argaeledd gorsafoedd gwefru. Roedd adroddiadau'n mynegi pryderon cyffredinol ynghylch fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau trydan, gan alw am ostwng costau trafnidiaeth gyhoeddus neu ddarparu grantiau i gynorthwyo unigolion o gefndiroedd lleiafrifol i brynu ceir trydan. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Mae'n amlwg bod rhaniad mawr yng Nghymru rhwng ardaloedd trefol a gwledig o ran mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.'

**Addysg, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac arweiniad**

5.2.5 Y bedwaredd thema fwyaf cyffredin mewn adroddiadau oedd pwysigrwydd mynediad cyfartal i addysg werdd gyda'r nod o feithrin ymwybyddiaeth o leihau allyriadau ac arferion cynaliadwy. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch annigonolrwydd presennol addysg werdd mewn ysgolion, gan ysgogi awgrymiadau ar gyfer ei gweithredu, gan ddechrau yn yr ysgol gynradd ac ymestyn hyd at addysg uwch. Wrth ragweld cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol, pwysleisiodd adroddiadau bwysigrwydd darparu addysg werdd a hyfforddiant sgiliau, yn enwedig i bobl ifanc o gymunedau lleiafrifol, er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer gyrfaoedd gwyrdd. Roedd adroddiadau'n galw'n gyffredinol am adnoddau a gwybodaeth fwy hygyrch am dechnolegau ynni-effeithlon a dewisiadau ffordd o fyw, er enghraifft, i helpu perchnogion tai a landlordiaid i wneud penderfyniadau gwybodus am yr opsiynau mwyaf addas ar gyfer eu cartrefi. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Cyflwyno cynaliadwyedd amgylcheddol yn y cwricwlwm ysgol ar draws pob lefel i greu ymwybyddiaeth. Mae angen i ni sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r newid i Sero Net ac yn cymryd rhan ynddo.'

**Sgiliau a swyddi**

5.2.6 Y thema fwyaf cyffredin nesaf oedd pwysigrwydd buddsoddiad pellach a mynediad teg at sgiliau gwyrdd a hyfforddiant i hwyluso'r cyfnod pontio i weithwyr. Lleisiodd llawer o adroddiadau a oedd yn trafod y thema hon bryderon ynghylch colli swyddi o ganlyniad i ymdrechion datgarboneiddio, gan gydnabod y canlyniadau economaidd andwyol. Roeddent yn tanlinellu pwysigrwydd arfogi unigolion â sgiliau gwyrdd ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol mewn gyrfaoedd cynaliadwy. Roedd rhai adroddiadau'n cydnabod y byddai unigolion o grwpiau incwm isel yn wynebu mwy o heriau i gael mynediad at addysg neu hyfforddiant ar gyfer caffael sgiliau newydd, a allai arwain at ddadleoli swyddi neu anawsterau wrth bontio i ddiwydiannau newydd. O ganlyniad, galwasant am fwy o weithgareddau allgymorth a chyfleoedd rhwydweithio i'w cynorthwyo i bontio i yrfaoedd gwyrdd. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Roedd pryderon (yn enwedig gyda chyhoeddiad diweddar TATA [Cwmni Dur Tata]) y byddai'r pontio yn arwain at golli swyddi ac yn taro ardal sydd eisoes yn ddifreintiedig yn galetach fyth, gyda sgil-effeithiau lluosog o fewn y gymuned leol. Bydd colli swyddi fel rhan o ddatgarboneiddio yn troi pobl yn erbyn gweithredu ar yr hinsawdd.'

**Cynnwys cymunedau mewn gwneud penderfyniadau**

5.2.7 Y chweched thema amlaf oedd cynnwys pobl leol mewn prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn helpu i nodi anghenion ac atebion ar lefel gymunedol. Roedd adroddiadau fel arfer yn cydnabod arwyddocâd gweithio ochr yn ochr â busnesau lleol, sefydliadau cymunedol, ac asiantaethau'r llywodraeth i ddatblygu strategaethau cyfannol. Nodwyd y dylai cymunedau, yn enwedig y rhai o gefndiroedd ymylol, gael eu cynnwys yn arbennig wrth ddatblygu polisïau ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Meithrin ymgysylltiad cymunedol mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â lleihau allyriadau a datblygu trefol.'

**Galw am newidiadau mewn polisïau i fynd i'r afael â gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd**

5.2.8 Y thema nesaf a grybwyllwyd amlaf oedd galwad am bolisïau i fynd i'r afael â gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd yn ymwneud ag ymdrechion i leihau allyriadau. Roedd adroddiadau a oedd yn trafod y thema hon yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na ddylai pontio teg effeithio'n anghymesur ar grwpiau agored i niwed. Gellid cyflawni hyn drwy fynd i'r afael â rhwystrau cost a darparu

cymorth ariannol i gynorthwyo grwpiau agored i niwed. Yng nghyd-destun gwaith a busnes, roedd rhai adroddiadau yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn rhaglenni addysg ac ailhyfforddi i grwpiau bregus er mwyn sicrhau y byddent yn elwa o newidiadau a achosir gan bontio teg. Amlygwyd yn gyffredinol y dylid ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig o gefndiroedd ymylol, i helpu i ddatblygu polisïau ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> ‘Trafododd y cyfranogwr yr angen i fynd i’r afael â’r effeithiau amrywiol hyn drwy greu polisïau cynhwysol, darparu cymorth wedi’i dargedu ar grwpiau agored i niwed, buddsoddi mewn rhaglenni addysg ac ailhyfforddi, a meithrin diwylliant o ddysgu gydol oes i sicrhau bod y cymunedau’n gallu addasu ac elwa o’r newidiadau hyn.’

**Monitro ac atebolrwydd**

5.2.9 Y thema olaf oedd y farn y dylid cael mwy o fonitro ac atebolrwydd o ran y cynnydd a wneir gan fusnesau. Roedd adroddiadau fel arfer yn cynnig gweithredu systemau monitro cynhwysfawr i olrhain cynnydd mewn mentrau lleihau allyriadau. Awgrymwyd hefyd y dylai busnesau a diwydiannau fod yn atebol am gyrraedd targedau cynaliadwyedd a chydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol. Cynigiwyd bod y refeniw a gynhyrchir o gosbau o’r fath yn cael ei ddyrannu i ddarparu grantiau. Byddai'r grantiau hyn yn helpu i gefnogi unigolion, grwpiau cymunedol a busnesau bach sy'n wynebu anawsterau ariannol ond sy'n ceisio pontio i arferion mwy cynaliadwy. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> ‘Gweithredu systemau monitro tryloyw i olrhain cynnydd mewn mentrau lleihau allyriadau.’

## Cwestiwn 2: Sut ydym ni’n eich cynnwys chi mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn deg? Er enghraifft, a ydych chi’n meddwl bod digon o gyfleoedd i chi gymryd rhan?

## Pwy ydych chi’n meddwl ddylai fod yn rhan o’r broses o wneud penderfyniadau am yr hyn sydd angen i ni ei wneud i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd?

5.2.10 Gofynnwyd i'r trefnwyr drafod pwy ddylai fod yn rhan o'r penderfyniadau ynghylch sut i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

5.2.11 Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd cynnwys grwpiau bregus megis lleiafrifoedd ethnig a phlant er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Yr ail argymhelliad amlaf oedd dull cyfannol a ddylai gynnwys rhanddeiliaid amrywiol, gan

gynnwys y llywodraeth, gwyddonwyr, trigolion lleol, a grwpiau cymunedol, i enwi ond ychydig. Roedd adroddiadau fel arfer yn cydnabod y byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid o’r fath yn cyfoethogi’r broses o wneud penderfyniadau drwy ymgorffori eu safbwyntiau a’u harbenigedd amrywiol. Yr awgrym mwyaf cyffredin nesaf oedd ymgysylltu â myfyrwyr ac academyddion a allai gyfrannu eu mewnwelediadau ymchwil i ddatblygu mentrau a thechnolegau cynaliadwy. Yn olaf, roedd rhai adroddiadau'n pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â thrigolion lleol a'u grymuso i wneud dewisiadau cynaliadwy.

5.2.12 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cynrychiolwyr y llywodraeth, cydweithio rhwng cenedlaethau, sefydliadau cymunedol, cyngor arbenigol a’r gymuned wyddonol, busnesau, y sector amaethyddol, a gweithredwyr hinsawdd.

## Sut ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys gwahanol grwpiau? / Sut ydych chi'n meddwl y gallwn gynnwys pobl nad ydynt efallai wedi bod yn rhan o benderfyniadau neu drafodaethau yn y gorffennol, sy'n effeithio ar eu bywydau?

5.2.13 Gofynnwyd i'r trefnwyr ymdrin â'r ffyrdd y gallai gwahanol grwpiau o bobl fod yn rhan o wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Ym mhob thema, mae myfyrdodau ar sut i gynnwys gwahanol grwpiau o bobl a sut i gynnwys y pobl na fu'n rhan o’r trafodaethau hyn o’r blaen.

**Cynnwys a chydweithio â chymunedau**

5.2.14 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd yn yr adroddiadau oedd mwy o gyfranogiad cymunedol. Roedd adroddiadau a oedd yn trafod y thema hon yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin ymgysylltiad cymunedol trwy drefnu cyfarfodydd grŵp lleol, sesiynau adborth a digwyddiadau cymunedol yn rheolaidd i gasglu mewnbwn ac ymgysylltu â’r cyhoedd. Mynegodd rhai adroddiadau gefnogaeth i'r digwyddiadau Sgyrsiau ar yr Hinsawdd eu hunain, gan ofyn am fentrau tebyg yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau allgymorth ehangach, awgrymwyd amrywio'r digwyddiadau hyn gan eu cynnal mewn ieithoedd gwahanol a’u hamserlennu ar adegau amrywiol. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> ‘Gofynnwn i’r sgyrsiau ar yr hinsawdd beidio â bod yn brosiect untro. Gellid ei ailadrodd yn ystod y tymor. Roeddem yn sylweddoli nad oedd yr amseriad yn addas oherwydd bod mwyafrif y myfyrwyr i ffwrdd ar gyfer gwyliau’r Nadolig a dim ond nifer fach o Weithwyr Proffesiynol oedd yno, ac nid oedd pob un ohonynt wedi mynychu’r sesiynau.’

### Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a strategaethau cyfathrebu

5.2.15 Yr ail thema amlaf oedd gwella hygyrchedd gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd. Awgrymodd llawer o adroddiadau y dylai Llywodraeth Cymru ledaenu gwybodaeth hawdd ei deall am newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau. Roedd estyn allan ac ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig. Pwysleisiodd rhai adroddiadau bwysigrwydd darparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd lluosog i sicrhau hygyrchedd i boblogaethau amrywiol. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Gwella hygyrchedd i wybodaeth a chyfleoedd, yn enwedig i'r rhai nad ydynt fel arfer yn rhan o wneud penderfyniadau.'

### Addysg

5.2.16 Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd gwell addysg ar faterion amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd ac arferion cynaliadwy. Roedd adroddiadau'n pwysleisio'n gyffredin y byddai mwy o addysg a datblygu sgiliau o fewn cymunedau yn gwella eu gallu i gymryd rhan weithredol mewn gweithredu ar yr hinsawdd. Cynigiwyd y gallai'r sesiynau hyfforddi hyn amrywio o gyrsiau sylfaenol i gyrsiau mwy manwl, wedi'u teilwra i'r lleoliad penodol a'i faterion cyfatebol. Ymhellach, roedd rhai adroddiadau'n pwysleisio pwysigrwydd ymestyn ymdrechion addysgol i gymunedau lleiafrifol nad oeddent cyn hynny wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch newid yn yr hinsawdd. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> 'Mae'r cyfan yn dechrau gydag ADDYSG – rhaglenni dysgu gydol oes am ddinasyddiaeth weithredol sy'n hybu dealltwriaeth ddyfnach o'r materion ac yn helpu pobl i deimlo'n hyderus i ymuno â'r sgwrs a chymryd rhan mewn democratiaeth weithredol.'

### Gweithredu'n ymarferol a chymhellion

5.2.17 Y bedwaredd thema amlaf oedd cynllunio a gweithredu prosiectau a mentrau ymarferol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Roedd adroddiadau a oedd yn trafod y thema hon yn awgrymu y dylid cael mwy o gefnogaeth i fentrau cynaliadwyedd a yrrir gan y gymuned i rymuso cymunedau lleol i chwarae rhan weithredol wrth frwydro yn erbyn heriau amgylcheddol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys annog cymunedau i drefnu mentrau ecogyfeillgar megis plannu coed, lleihau gwastraff a chadwraeth ynni. Yn ogystal, roedd rhai adroddiadau'n pwysleisio pwysigrwydd cymell cyfranogiad a newid ymddygiad. Roeddent yn cynnig defnyddio cymhellion ariannol i annog mwy o gyfranogiad yn y prosiectau hyn. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> ‘Camau Ymarferol - Yn galw am gamau ymarferol ar lefel unigol a chymunedol i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol.’

**Cynhwysedd a chynrychiolaeth**

5.2.18 Y bumed thema fwyaf cyffredin ymhlith adroddiadau oedd sicrhau cynrychiolaeth amrywiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau gan gynnwys demograffeg a chefndiroedd lleiafrifol gwahanol. Roedd adroddiadau fel arfer yn codi pryderon am dangynrychiolaeth sylweddol o leiafrifoedd ethnig mewn rolau amgylcheddol ac yn pwysleisio pwysigrwydd unioni’r anghydbwysedd hwn. At hynny, roedd rhai adroddiadau’n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau rhagweithiol i estyn allan at gymunedau lleiafrifol ac ymgysylltu’n weithredol â’r grwpiau hynny yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Dyfyniad o adroddiad sy'n codi'r thema hon:

> ‘Ar hyn o bryd, mae tangynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig mewn rolau amgylcheddol yn y DU. Rydym yn deall mai dim ond 4% o bobl yn sector yr amgylchedd yn y DU sydd o darddiad Du a lleiafrifoedd, a niferoedd isel o fyfyrwyr sy’n ymgymryd ag astudiaethau mewn disgyblaethau Amgylcheddol ar hyn o bryd.’

## 5.3 Crynodeb o ymatebion anstrwythuredig

5.3.1 Mae'r adran hon yn dadansoddi ymatebion anstrwythuredig neu rannol strwythuredig yn yr adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd nad oeddent yn dilyn fformat y cwestiwn allweddol. Cododd mwyafrif yr adroddiadau a roddodd ymatebion anstrwythuredig themâu tebyg i'r rhai a nodwyd yn yr ymatebion strwythuredig a drafodwyd yn flaenorol, ac maent wedi'u hintegreiddio i'r themâu a gyflwynwyd yn adran 5.2. Mae’r adran hon yn cyflwyno unrhyw themâu newydd neu wreiddiol a godwyd gan y cyfranogwyr hyn.

**Rôl busnesau mewn newid yn yr hinsawdd**

5.3.2 Un thema newydd a godwyd ymhlith adroddiadau oedd safbwyntiau pellach ar rôl busnesau mewn newid yn yr hinsawdd. Roedd adroddiadau gan y sector busnes yn cynnig barn ar rwystrau i'w cyfranogiad a'u dehongliad o ystyr cynaliadwyedd. Mynegodd yr adroddiadau hyn hefyd bryderon ynghylch y rhwystrau a wynebir gan ddiwydiannau a busnesau wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Roedd y rhwystrau hyn yn cynnwys difaterwch, amserlenni, costau, a risgiau ariannu. Roedd gan y cysyniad o gynaliadwyedd ddehongliadau amrywiol o fewn adroddiadau, gyda rhai yn ei ystyried yn bennaf o safbwynt pryderon amgylcheddol, tra bod eraill yn ei ystyried yng nghyd-destun prosesau busnes a chyfrifoldeb cymdeithasol. Er gwaethaf

yr amrywiaeth hwn o ran dehongli, roedd consensws ar bwysigrwydd safoni'r diffiniad o gynaliadwyedd i hwyluso gweithredu ar y cyd a gwneud penderfyniadau.

**Awgrymiadau cyffredinol ynghylch y ffordd o leihau allyriadau**

5.3.3 Nid oedd rhai adroddiadau'n canolbwyntio ar yr agwedd 'tegwch' o gwestiwn cyffredinol y digwyddiad, ac yn lle hynny, defnyddiwyd y cyfle i amlygu ffyrdd cyffredinol o leihau allyriadau, gan danlinellu eu mentrau unigol eu hunain. Er enghraifft, amlygodd adroddiadau eu hymdrechion i atafaelu carbon trwy ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy fel pympiau gwres a ffotofoltäig solar. Roedd adroddiadau eraill yn rhannu mentrau personol, megis plannu coed ar gyfer pob gwerthiant a hyrwyddo defnydd o offer ail-law i leihau allyriadau. Roedd y trafodaethau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd camau gweithredu unigol ochr yn ochr ag ymyriadau systemig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

## 6. Cymharu themâu ar draws yr ymgynghoriad ac adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd

6.1.1 O ystyried yr ystod amrywiol o gwestiynau a ofynnwyd, bu digwyddiadau Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg a Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn ymchwilio i wahanol agweddau ar bontio teg. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Pontio Teg ei hun, a threfnwyd digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd i drafod y thema gyffredinol, 'Sut mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mewn ffordd deg?'. Er gwaethaf yr amrywiadau hyn, roedd pum elfen gyffredin ar draws y themâu a drafodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn yr adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd.

6.1.2 Amlygwyd pwysigrwydd ystyriaethau yn ymwneud â busnes a chyflogaeth ar draws yr adroddiadau ymgynghori Sgyrsiau am yr Hinsawdd, gyda chyfranwyr yn mynegi pryderon am yr effaith negyddol ar swyddi yn dilyn y pontio. Roedd consensws ar yr angen am addysg werdd a datblygu sgiliau i sicrhau bod y gweithlu yng Nghymru yn cael ei baratoi'n ddigonol ar gyfer y cyfnod pontio, er mwyn sicrhau manteision teg i bawb.

6.1.3 Roedd arwyddocâd galluogi a chefnogi mentrau cymunedol yn amlwg yn yr adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd a'r ymgynghoriad. Tynnodd y cyfranwyr sylw at werth cynlluniau ynni sy'n eiddo i'r gymuned, a phwysleisiwyd mentrau gwastraff bwyd a chyfnewid dillad yn arbennig mewn adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd.

6.1.4 Roedd galw am gynnwys yr holl randdeiliaid wrth ddatblygu a chyflenwi unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â phontio i sero net, gyda phwyslais arbennig ar grwpiau agored i niwed. Amlygwyd lleiafrifoedd ethnig yn aml yn yr adroddiadau tra bod trigolion ardaloedd gwledig a ffermwyr yn cael eu pwysleisio yn yr ymgynghoriadau. Tynnwyd sylw at unigolion incwm isel a phreswylwyr oedrannus ar draws yr ymgynghoriad a'r adroddiadau.

6.1.5 Ar draws yr ymgynghoriad a'r adroddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd, roedd y strategaethau lliniaru a awgrymwyd i'r grwpiau hyn yn cynnwys mwy o ymgysylltu trwy ddulliau cyfranogol megis gwneud gwell defnydd o sefydliadau presennol, gan gynnwys undebau llafur, grwpiau cymunedol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ac awdurdodau lleol, i godi ymwybyddiaeth. Awgrymodd cyfranwyr bod angen gwella hygyrchedd gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd. Mewn adroddiadau, tynnodd cyfranwyr sylw penodol at ddarparu gwybodaeth mewn amrywiol fformatau ac ieithoedd i sicrhau hygyrchedd i boblogaethau amrywiol.

6.1.6 O ran gwahaniaethau, roedd y rhai a gyfrannodd at yr ymgynghoriad ar y cyfan yn fwy beirniadol o weithredu. Mynegwyd pryderon ganddynt am ganlyniadau negyddol y newid i sero net a mynegwyd amheuaeth ynghylch y graddau a maint cyfraniad canfyddedig Cymru at newid yn yr hinsawdd, o'i gymharu â gwledydd eraill â chyfanswm allyriadau carbon uwch. Dadleuodd rhai o blaid ailddyrannu adnoddau i feysydd eraill a ystyrir yn bwysicach, fel y GIG ac addysg.

# 7. Casgliad

7.1.1 Archwiliwyd Fframwaith Pontio Teg i Gymru Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at roi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd tra'n ystyried tegwch cymdeithasol, drwy ymgynghoriad cynhwysfawr a digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd.

7.1.2 Datgelodd yr ymgynghoriad yr angen am strategaeth glir y gellir ei gweithredu gydag ymgysylltiad cadarn â rhanddeiliaid. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cynhwysiant a chydraddoldeb drwy gydol y cyfnod pontio, pwysigrwydd cynnwys canllawiau cadarn yn y Fframwaith megis enghreifftiau ac astudiaethau achos o arferion gorau, a phwysleisiwyd rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 i gefnogi ymagwedd gyfannol.

7.1.3 Roedd adroddiadau ar y digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn tanlinellu themâu megis datrysiadau ar lefel gymunedol, cefnogaeth ariannol, gwell seilwaith trafnidiaeth, a buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant. Roedd yr adroddiadau yn galw am gyfranogiad teg mewn gweithredu ar yr hinsawdd, yn enwedig ymgysylltu â grwpiau agored i niwed a sicrhau cyfranogiad cymunedol eang.

7.1.4 Codwyd themâu yn yr ymgynghoriad ac yn y Sgyrsiau am yr Hinsawdd, gan gynnwys pwysigrwydd (i) ystyriaethau busnes a chyflogaeth, (ii) gweithredu mentrau cymunedol, a (iii) yr angen am ymgysylltiad rhanddeiliaid cynhwysol.

7.1.5 Mae'r mewnwelediadau hyn yn tanlinellu'r angen i Lywodraeth Cymru roi Fframwaith Pontio Teg clir, cynhwysol a gweithredadwy ar waith sy'n trosoli partneriaethau presennol ac yn grymuso cymunedau, gan sicrhau pontio teg a chyfiawn i roi dyfodol gwyrddach i Gymru gyfan.

# 8. Llyfryddiaeth

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/contents (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Cyfoeth Naturiol Cymru, 'Datganiadau Ardal', ar gael yn: https://naturalresources.wales/areastatements?lang=cy (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, Dull ymgysylltu o amgylch y Newid yn yr Hinsawdd 2022-26 2022-26, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dull-ymgysylltu-o-amgylch-y-newid-yn-yr-hinsawdd-2022-26 (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd', ar gael yn: https://www.climateweek.gov.wales/CY/pages/Climate_conversations (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd – Cwestiynau Allweddol, ar gael yn: https://cdn-eu.eventscase.com/www.climateweek.gov.wales/uploads/users/933324/uploads/00aa27425332d3a4f76bd4e336e1f27c103ced8485194e86978bfd3a2acad9574ab9675a09cc277c7c3a16d42db3eb986b2e.6558bed5f253a.pdf (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn', https://www.llyw.cymru/egwyddorion-amgylcheddol-trefniadau-llywodraethu-thargedau-bioamrywiaeth-papur-gwyn (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/pontio-teg-tuag-sero-net-cymru (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Fframwaith Pontio Teg', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/crynodeb-or-fframwaith-pontio (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Sgiliau sero net', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sgiliau-sero-net (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25)', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25 (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, 'Cymru wedi ymrwymo i sero-net erbyn 2050, ond yr uchelgais yw taro'r nod yn gynt', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymru-wedi-ymrwymo-i-sero-net-erbyn-2050-ond-yr-uchelgais-yw-taror-nod-yn-gynt (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru, ‘Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol (Cyrchwyd 16 Mai 2024)

# Atodiad

## Ymgynghoriad y Fframwaith Pontio Teg

## Cyflwyniad

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ynglŷn â'r Weledigaeth arfaethedig ar gyfer Cymru Decach a Gwyrddach erbyn 2050?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- A yw'r weledigaeth a gynigir yn adlewyrchu eich barn ynglŷn â'r hyn y dylai Cymru wyrddach fod;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y weledigaeth, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ynglŷn â'n hymagwedd arfaethedig at bontio teg yng Nghymru?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Y defnydd a wneir o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith canllaw;
- Y mathau o gyfiawnder a gynhwysir, a pha un a ellir adlewyrchu mathau eraill o gyfiawnder neu ymagweddau;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ynglŷn â strwythur cyffredinol y fframwaith arfaethedig?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Pa mor briodol yw'r strwythur ar gyfer cyfathrebu ein hymagwedd a'n camau gweithredu ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw elfennau ychwanegol y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

## Rhan 1 – Integreiddio'r pontio teg yn ein penderfyniadau

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn ynglŷn â'r egwyddorion canllaw?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Pa mor effeithiol fydd yr egwyddorion yn integreiddio pontio teg mewn prosesau penderfynu;
- A fyddai'r egwyddorion hyn yn ddefnyddiol i sefydliadau oddi allan i Lywodraeth Cymru;
- Sut gall sefydliadau ddefnyddio neu gymhwyso'r egwyddorion hyn er mwyn integreiddio Pontio Teg mewn prosesau penderfynu;
- A oes bylchau yn yr egwyddorion neu a oes pethau wedi'u hepgor;
- Y cysylltiad rhwng yr egwyddorion a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ynglŷn â'r ymagwedd arfaethedig at gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Y gwahanol fathau o bontio a nodir;
- Pa brosesau y dylid eu defnyddio i integreiddio pontio teg mewn prosesau penderfynu;
- Cyd-destunau neu sefyllfaoedd ychwanegol pan fydd angen cynllunio ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn yr ymagwedd, yn eich tyb chi.

## Rhan 2 – Adeiladu ein Sylfaen Dystiolaeth

**Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ynglŷn â'r lensys arfaethedig ar gyfer archwilio'r effeithiau a'r cyfleoedd economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a fydd yn deillio o'r pontio?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Y gwahanol fathau o bontio a nodir;
- Pa brosesau y dylid eu defnyddio i integreiddio pontio teg mewn prosesau penderfynu;
- Cyd-destunau neu sefyllfaoedd ychwanegol pan fydd angen cynllunio ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn yr ymagwedd, yn eich tyb chi.

## Rhan 3 – Gweithio gyda Rhanddeiliaid a Chydgysylltu ein Hymateb ar y Cyd

**Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ynglŷn â'r arweiniad, y cydweithio, a'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer cyflawni Pontio Teg?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Llywodraeth Cymru;
- Llywodraeth y DU;
- Tîm Cymru;
- Oddi mewn i sefydliadau unigol;
- Cymunedau;
- Y byd academaidd ac addysgwyr;
- Unrhyw randdeiliaid eraill y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 8: Yn eich tyb chi, sut gellir mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i gynnwys pobl a chymunedau Cymru yn y gwaith o gynllunio ar gyfer pontio teg?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Gwahanol ymagweddau y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried;
- Sut byddech yn cynnwys unigolion yn eich busnes/cymuned/sefydliad i sicrhau bod y gwaith cynllunio'n berthnasol ac yn effeithiol, a pha wybodaeth a allai eich helpu i wneud hyn.

## Rhan 4 – Pecyn Cymorth

**Cwestiwn 9: Beth yw eich barn ynglŷn â'r pecyn cymorth arfaethedig?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Sut byddech chi/eich sefydliad yn defnyddio pecyn cymorth;
- Unrhyw elfennau ychwanegol y gellid eu cynnwys er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer pontio teg;
- Y modd y gellir llunio'r pecyn cymorth er mwyn sicrhau y bydd yn cynnig y gwerth mwyaf i wahanol fathau o randdeiliaid sy'n cynllunio ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw astudiaethau achos neu offer ar-lein a allai fod yn rhan o'r pecyn cymorth, yn eich tyb chi.

## Arall

**Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith Pontio Teg ar y Gymraeg?**

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- A ydych yn meddwl bod yna gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- A ydych yn meddwl bod yna gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a oes modd llunio'r Fframwaith Pontio Teg, neu ei newid:**

- Fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg; neu
- Er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.**

## Digwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd

**Cwestiwn 1: Sut rydym yn lleihau allyriadau, yn ei gwneud yn deg i chi ac yn sicrhau lleoedd gwell i fyw ac i weithio ynddynt?**

Meysydd i'w hystyried mewn trafodaethau ar y cwestiwn hwn:

- Pa mor fforddiadwy ydych chi'n meddwl yw sicrhau bod eich tŷ a'ch cymuned yn gynnes ac yn gyfforddus?
- A oes cludiant cyhoeddus neu lwybrau beicio/cerdded da yn eich ardal ac a allwch chi weld sut y bydd cludiant yn newid?
- Sut ydych chi'n meddwl y bydd y diwydiannau a'r busnesau yn eich cymuned yn newid a sut olwg fydd ar y swyddi a'r sgiliau yn y dyfodol?

Gan feddwl am y newidiadau hyn yn eich cymuned, sut y byddant yn effeithio ar:

- Bobl wahanol (e.e. gwahanol oedrannau/rhyw);
- Busnesau gwahanol.

**Cwestiwn 2: Sut ydym ni'n eich cynnwys chi wrth weithredu ar newid hinsawdd yn deg? Er enghraifft, a ydych chi'n meddwl bod digon o gyfleoedd i chi gymryd rhan?**

Bydd angen i bobl, cymunedau a busnesau o bob rhan o Gymru gymryd rhan er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r meysydd i'w hystyried yn eich trafodaethau yn cynnwys:

- Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn rhan o wneud penderfyniadau am yr hyn sydd angen i ni ei wneud i fynd i'r afael â newid hinsawdd?
- Sut ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys gwahanol grwpiau?
- Sut ydych chi'n meddwl y gallwn ni gynnwys pobl nad ydyn nhw efallai wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau neu drafodaethau yn y gorffennol, sy'n effeithio ar eu bywydau?